



Hwb Gwyddorau Bywyd | Cymru
Life Sciences Hub | Wales

DOGFEN FFRAMWAITH INTERIM Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf

Yn weithredol o
1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

Crynodeb

Crynodeb	Dogfen Fframwaith Hwb Gwyddorau Bywyd
Fersiwn	6 (Terfynol)
Date	24/09/19
Lleoliad	iShare Llywodraeth Cymru

Hanes Adolygu

Fersiwn	Date	Sylwadau	Erbyn	Cymeradwywyd
1.1	02/2019			
2 a 3	03/2019	Cynnwys Adborth yr Hwb	Hwb	A Penny Evans
4	04/2019	Cynnwys adborth ar iechyd	Iechyd	Jason Lintern
4	05/2019	Ystyried sylwadau gan Adran Cydymffurfio Llywodraeth Cymru	Tîm Gwyddorau Bywyd Llywodraeth Cymru / Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	A Penny Evans / Jason Lintern
5	05/2019	Cynnwys Adborth yr Hwb	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Gemma Bafico/ Jason Lintern
5	09/2019	Ystyried sylwadau gan Wasanaethau Cyfreithiol Masnachol Llywodraeth Cymru a Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Jason Lintern / Gemma Bafico

Rheoli Llywodraethu

Awdur Gwreiddiol:	Angharad Penny Evans / Jason Lintern
Cydymffurfio ac Adolygu PBU	Richard Shearer a Craig Greenland
Uwch Swyddog Cyfrifol	Ifan Evans
Adolygiad o'r Gwasanaethau Cyfreithiol Masnachol	Charlotte Cheetham
Llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Gemma Bafico

**Gweinidogion Cymru, sy'n Gweithredu drwy Ddogfen
Fframwaith Llywodraeth Cymru a
Hwb Gwyddorau Bywyd
Cymru Cyf**

Cynnwys

1.	Dehongli	1
2.	Cyflwyniad ac Egwyddorion Troswaol sy'n Llywodraethu'r Berthynas Rhwyng Gweinidogion Cymru a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	1
3.	Llywodraethu ac Atebolrwydd	3
3.1	Pwerau a Dyletswyddau	3
3.2	Goruchwyliaeth Strategol gan Weinidogion Cymru	5
3.3	Rolau a Chyfrifoldebau	5
	Cyfrifoldeb Gweinidogol	5
	Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu	5
	Atebolrwydd a Chyfrifoldebau Adrannau Noddi Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol	6
	Tîm Noddi	7
	Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol	8
	Bwrdd Cyfarwyddwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	10
	Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd	12
	Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd	14
3.4	Trefniadau Cyfrifyddu, Adroddiadau Ariannol ac Archwilio	14
	Cyfrifon Statudol	14
	Adroddiad Blynyddol	15
	Cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol	15
	Trefniadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg	15
	Archwiliad Mewnol	16
	Archwiliad Allanol	16
	Hawliau Mynediad Llywodraeth Cymru	17
	Cyllid Ewropeaidd	17
4.	Trefniadau Rheoli	17
4.1	Cyffredinol	17
4.2	Staff	18

Recriwtio, Cadw a Rheoli Staff	18
Cyflog ac Amodau Gwasanaeth	19
Cylch gwaith cyflog	19
Buddion Staff a Gwobrwyon Di-dâl	20
Pensiynau	20
Dileu Swydd, Diswyddo ac lawndal	21
4.3 Fframwaith Cynllunio Busnes	21
Llythyr Cylch Gwaith	21
Cynlluniau Gweithredol a Busnes	22
Cymeradwyo Cynlluniau	22
Rheoli Perfformiad	22
Is-gwmnïau a mentrau ar y cyd	23
Asedau Sefydlog	23
Adrodd am Eithriadau	23
5. Cyfrifoldebau Ariannol	24
5.1 Gwariant	24
Rhoddion a Lletygarwch	24
Benthyca, Benthyg, Gwarantau a Buddsoddiadau	25
Grantiau i Drydydd Partion	25
5.2. Cyllid	25
Incwm o Ffynonellau'r Siecr	25
Incwm o Ffynonellau nad ydynt yn rhai'r Siecr	26
Cronfeydd Preifat	26
5.3 Rheoli Arian	27
Balansau Arian	27
Rheoli Derbynebau	27
Llog a enillir ar falansau banc ac arian parod	27
5.4 Trefniadau Adrodd	28
5.5 Hawl trosglwyddo arian	28
6. Gofynion Eraill	29
6.1 Rheoli Risg	29
6.2 Yr Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – Arfarnu, Ymchwil a Gwerthuso	29
6.3 Technoleg Gwybodaeth	29
6.4 Yswiriant	30
6.5 Cwynion	30

- Atodiad 1 Egwyddorion Llywodraethu sy'n diffinio'r berthynas rhwng Cyrff
Hyd Braich a Llywodraeth Cymru
- Atodiad 2 Amserlen Cynllunio ac Adrodd
- Atodiad 3 Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Corfforaethol y
Llywodraeth gyfan
- Atodiad 4 Y Protocol Gwobrwyo a Thaliadau – (i'w gadarnhau)
- Atodiad 5 Atodlen o Drefniadau Galw i Mewn Awdurdodau
Dirprwyedig / Cyrff Cyhoeddus Dros Dro
- Atodiad 6 Erthyglau Cymdeithasu (Drafft)

1. Dehongli

1.1 Mae unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at:

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru neu'r **Cwmni** yn cyfeirio at Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf, 2il Lawr, 3 Sgwâr y Cynulliad, Bae Caerdydd, CF10 4PL. Rhif y cwmni 08719645.

Gweinidogion Cymru¹: yw prif gorff gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Fe'u penodir gan Brif Weinidog Cymru ac, ynghyd â'r Cwnsler Cyffredinol, maent yn gwasanaethu fel y Cabinet. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef y corff deddfwriaethol yng Nghymru.

Y Gweinidog: y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i ddyrannu'n bennaf gyfrifol am oruchwylio'r Cwmni (gweler adran 3.3.1).

Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru: y weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Gweinidogion Cymru ac sy'n cael ei harwain gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru. Mae'n cefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

Tîm Noddi: rhan o bortffolio'r Gweinidog ac yn gweithredu fel tîm noddi'r Cwmni.

2. Cyflwyniad ac Egwyddorion Trosfwaol sy'n Llywodraethu'r Berthynas Rhwng Gweinidogion Cymru a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

2.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith interim hon yn nodi'r fframwaith cyffredinol y mae'r **Cwmni**'n gweithredu oddi mewn iddo, yn nodi'r telerau a'r amodau y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau ar eu cyfer i'r Cwmni, ac yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Cwmni yn ogystal â'r berthynas rhyngddynt. Mae erthyglau cymdeithasu'r Cwmni yn llywodraethu rheolaeth y Cwmni o ddydd i ddydd.

2.2 Mae talu'r cyllid yn amodol ar berfformiad boddhaol gan y Cwmni o'i holl rwymedigaethau fel y'u nodir yn y ddogfen Fframwaith interim hon, ac unrhyw amodau a gofynion eraill y caiff y Prif Weinidog, yn unol ag adrannau 70 a 71(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o'r Gweinidogion, weithredu'n unol â swyddogaethau a roddir gan adrannau 58A a 60(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, eu gosod o bryd i'w gilydd.

2.3 Mae gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio ac mae'n rhaid i benderfyniadau yng nghyswllt pob swyddogaeth o'r fath gael eu cymryd yng ngoleuni'r holl ystyriaethau perthnasol,

¹ Mae'r pwerau a'r swyddogaethau y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gweithredu yn unol â nhw yn deillio o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30, atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

ac eithrio'r holl ystyriaethau amherthnasol. Ni fydd dim a gynhwysir neu a awgrymir yn y ddogfen Fframwaith interim hon, neu sy'n codi o dan y ddogfen Fframwaith interim hon neu mewn cysylltiad â hi, mewn unrhyw ffordd, yn niweidio, yn llyffetheirio nac yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru neu unrhyw un ohonynt i arfer, neu ymatal rhag arfer, unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau mewn modd penodol. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen hon at unrhyw ddeddfwriaeth, boed yn gyfraith ddomestig, yn gyfraith yr UE neu'n gyfraith ryngwladol yn cynnwys yr holl ddiwygiadau ac amnewidiadau ac ailddeddfiadau o'r cyfryw ddeddfwriaeth sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

- 2.4 Bydd y Ddogfen Fframwaith interim hon yn cael ei hadolygu ddechrau 2020 gan Lywodraeth Cymru a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar y cyd. Caiff Llywodraeth Cymru gynnig diwygiadau i'r Ddogfen Fframwaith interim hon ar unrhyw adeg a bydd Llywodraeth Cymru, ar ôl ymgynghori'n briodol â'r Cwmni, yn penderfynu pa newidiadau sydd i'w rhoi ar waith. Mae'r Ddogfen Fframwaith interim hon wedi cael ei llofnodi a'i dyddio gan Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gan Brif Swyddog Gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (y Cwmni).
- 2.5 Prif bwrpas y Cwmni yw hybu iechyd, datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, fel y nodir yn ei Erthyglau Cymdeithasu (**Atodiad 6**).
- 2.6 Bydd strategaeth a gweithgareddau interim y Cwmni yn seiliedig ar gynnwys ei Fframwaith Cynllunio Busnes – hynny yw, y Llythyr Cylch Gwaith, y Cynllun Gweithredol 5 Mlynedd a'r Cynlluniau Busnes Blynyddol (gweler **paragraffau 4.3.1** i **4.3.7**). Lle mae'n rhaid i'r Cwmni nodi sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol.
- 2.7 Mae gofynion y ddogfen Fframwaith interim hon yn berthnasol i'r cyllid a ddarperir i'r Cwmni gan Lywodraeth Cymru at y dibenion a amlinellir yn y ddogfen hon. Pan fydd cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru o dan contract ar wahân ac at ddibenion gwahanol, bydd y telerau o dan y contract hwnnw'n berthnasol ar yr amod nad ydynt yn gwrthdaro â **paragraffau 2.2 a 2.3**. Rhaid rheoli unrhyw wrthdaro posibl yn effeithiol ac yn unol â'r canllawiau a nodir yn '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'.
- 2.8 Bydd goruchwyliaeth reolaidd Gweinidogion Cymru o'r Cwmni yn cael ei chyflawni drwy gyfrwng y cyfarfodydd goruchwyllo strategol a'r systemau adrodd y cyfeirir atynt yn y ddogfen Fframwaith interim hon.
- 2.9 Mae Llywodraeth Cymru a'r Cwmni wedi cytuno y bydd y berthynas rhyngddynt yn seiliedig ar yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n Diffinio Cysylltiadau rhwng Cyrff Hyd Braich a Llywodraeth Cymru (**Atodiad 1**). Gweinidogion Cymru yw Aelod Warantwr y Cwmni, ond bydd y berthynas o ddydd i ddydd â'r Cwmni yn cael ei goruchwyllo gan y Tîm Noddi.

2.10 Bydd y Cwmni:

(a) yn sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion llywodraethu canlynol sy'n berthnasol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru:

- yn rhoi'r Dinesydd yn Gyntaf;
- yn gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham;
- yn ymgysylltu ag eraill;
- yn dilyn y gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus;
- yn meithrin Darpariaeth Arloesol;
- yn bod yn Sefydliad sy'n Dysgu;
- yn sicrhau Gwerth am Arian;

(b) yn sefydlu a chyhoeddi, yn ei Gynllun Gweithredol, amcanion llesiant y Cwmni at y diben o fanteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad at gyflawni'r saith (7) nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Rhaid i'r Cwmni ddangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn tuag at gyflawni'r nodau hyn.

3. Llywodraethu ac Atebolrwydd

3.1 Pwerau a Dyletswyddau

3.1.1 Mae'r Cwmni'n gweithredu'n unol â'r pwerau a'r swyddogaethau a ddarperir gan adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd)² ynghyd ag adran 60(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pwerau Gweinidogion Cymru yw pwerau adran 60(1)(a) i wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i hybu'r gwaith o wella llesiant economaidd Cymru.

3.1.2 O ran ei berthynas â Llywodraeth Cymru, bydd rhai o weithgareddau'r Cwmni yn dod o dan yr egwyddorion "Teckal" sydd wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Bydd y Cwmni yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn i'r graddau y maent yn berthnasol iddo.

3.1.3 Mae'r Cwmni (a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr o dan rif cwmni 08719645) yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn eiddo llwyr i Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid iddo gyflawni ei weithgareddau yn unol â'r canlynol:

- ei amcanion fel y pennir yn ei erthyglau cymdeithasu;
- yr holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- telerau unrhyw gymeradwyaethau Cymorth Gwladwriaethol perthnasol;
- y llythyr cylch gwaith;
- y cynllun gweithredol fel y'i cymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;
- egwyddorion, rheolau a chanllawiau *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

² Ar 1 Ebrill 2006, unwyd Awdurdod Datblygu Cymru (yr "Asiantaeth") â Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn rhinwedd Gorchymyn Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, ac felly trosglwyddwyd hawliau a rhwymedigaethau'r Awdurdod i'r

Cynulliad drwy weithrediad y gyfraith. Yn dilyn hynny, creodd adran 45(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 Lywodraeth Cynulliad Cymru; yr aelodau oedd y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Dirprwy Weinidogion Cymru.

Ar 26 Mai 2007, yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 38 a 39 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddwyd holl swyddogaethau gweithredol y Cynulliad, ynghyd ag unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny, i Weinidogion Cymru

3.2 Goruchwyliaeth Strategol gan Weinidogion Cymru

- 3.2.1 Y tîm Noddi sy'n darparu goruchwyliaeth strategol o'r Cwmni i Weinidogion ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr o leiaf.
- 3.2.2 O bryd i'w gilydd, caiff Gweinidogion Cymru gynnal adolygiad (neu adolygiad polisi) o'r Hwb fel y gwelant yn briodol. Cyn cychwyn unrhyw adolygiad o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori'n briodol â'r Bwrdd.

3.3 Rolau a Chyfrifoldebau

Cyfrifoldeb Gweinidogol

- 3.3.1 Mae'r Prif Weinidog wedi dyrannu'r prif gyfrifoldeb dros oruchwyllo'r Cwmni i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r Gweinidog yn arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yng nghyswllt y Cwmni ac, yn y pen draw, mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am weithgareddau'r Cwmni a sut mae'n defnyddio adnoddau. Nid yw'r Gweinidog yn gyfrifol am faterion gweithredol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y Cwmni yw'r rhain.
- 3.3.2 Mae rhai meysydd o weithgareddau'r Cwmni yn dod o fewn meysydd cyfrifoldeb Gweinidogion eraill, a byddant yn ymgysylltu yn unol â'u portffolios a'u hamcanion polisi. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gosod y fframwaith polisi ar gyfer y Cwmni yn cwrdd â Chadeirydd y Cwmni bob blwyddyn i adolygu perfformiad a thrafod gweithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- 3.3.3 Mae cyfrifoldebau'r Gweinidog yn cynnwys:
- Cytuno ar amcanion strategol a nodau a thargedau allweddol y Cwmni;
 - Cytuno ar y gyllideb i'w thalu i'r Cwmni, a sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.3.4 Pan fo'n briodol, caiff y Gweinidog weithredu drwy swyddogion yn Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

- 3.3.5 Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO) Gweinidogion Cymru yw Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldebau a bennir gan Drysorlys EM ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol) ac i Senedd y DU (drwy Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am:

- rheoleidd-dra a phriodoldeb cyllid Llywodraeth Cymru;
- cadw cyfrifon priodol yng nghyswllt Gweinidogion Cymru; a
- defnyddio'r adnoddau y penderfynwyd eu rhoi i'r Cwmni o dan Gynnig Cyllidebol Blynyddol Llywodraeth Cymru mewn ffordd effeithiol ac effeithlon;

3.3.6 Mae'r PAO hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolaethau ariannol a'r dulliau rheoli eraill a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu arian cyhoeddus.

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y Prif Noddwr

3.3.7 Bydd y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn cael cymorth y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r dyletswyddau hyn, y maent wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol (**AAO**) ac y mae ganddynt gyfrifoldeb dirprwyedig drosto dros yr Is-adran y mae tîm noddi'r Cwmni yn eistedd ynnddi.

3.3.8 Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gyfrifoldeb i gefnogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau:

- a) bod y dulliau rheoli ariannol a'r dulliau rheoli eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio yn briodol ac yn ddigonol i ddiogelu cyllid cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, bod y dulliau y mae'r Cwmni yn eu defnyddio yn cydymffurfio â'r gofynion o ran priodoldeb a rheolaeth ariannol dda;
- b) bod datganiad digonol o'r berthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cwmni (h.y. y ddogfen Fframwaith interim hon) a bod y datganiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd;
- c) bod yr amodau sydd ynghlwm wrth yr adnoddau neu'r cymorth grant a ddyfernir yn cydymffurfio â thelerau'r Gyllideb a bod trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiad y Cwmni â'r amodau hynny.

3.3.9 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol hefyd yn gyfrifol am gynghori'r Gweinidog ar y canlynol:

- amcanion a thargedau strategol priodol ar gyfer y Cwmni yng ngoleuni nodau strategol ehangach a dangosyddion perfformiad a chyflawni allweddol y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- cyllideb briodol ar gyfer y Cwmni yng ngoleuni blaenoriaethau gwario cyffredinol y Tîm Noddi;
- pa mor dda y mae'r Cwmni'n cyflawni ei amcanion strategol o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog, ac a yw'n darparu gwerth am arian.

3.3.10 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i wneud y canlynol:

- monitro gweithgareddau'r Cwmni a'i sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd a datganiadau rheolaidd;
- mynd i'r afael â phroblemau sylweddol o fewn y Cwmni, gan roi pa ymyriadau bynnag sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar waith;
- cynnal asesiad o'r risgiau o bryd i'w gilydd i amcanion a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Cwmni;
- rhoi gwybod i'r Cwmni am bolisiâu perthnasol y llywodraeth mewn modd amserol;
- tynnu sylw Bwrdd llawn y Cwmni at unrhyw bryderon am weithgareddau'r Cwmni, gan ofyn am eglurhad a sicrwydd y bydd camau unioni'n cael eu cymryd;
- dynodi Prif Weithredwr y Cwmni yn Swyddog Cyfrifyddu iddo.

3.3.11 Rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sicrhau bod trefniadau goruchwyllo priodol ar waith.

Tîm Noddi

3.3.12 Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli'r berthynas o ddydd i ddydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cwmni i'r Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n arwain y Tîm Noddi.

3.3.13 Y Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n arwain y tîm noddi yn Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio'n agos gyda Phrif Weithredwr y Cwmni ac yn atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Nhw hefyd yw'r brif ffynhonnell cyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni eu cyfrifoldebau yng nghyswllt y Cwmni.

3.3.14 Mae rôl y Tîm Noddi yn cynnwys darparu fframwaith polisi, sy'n cael ei yrru gan y Rhaglen Lywodraethu ar y pryd. Mae'n nodi rôl y Cwmni o ran cyfrannu at y fframwaith polisi hwnnw ac yn hysbysu ac yn egluro datblygiadau polisi ehangach a allai effeithio ar y Cwmni.

3.3.15 Mae cyfrifoldebau penodol y Tîm Noddi yn cynnwys:

- (i) goruchwyllo'r gwaith o ddarparu cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r Cwmni fel y mae'n credu sy'n briodol ar ôl adolygu Cynllun Gweithredol y Cwmni ar gyfer 2019-24 sy'n ymgorffori ei gynllun busnes blynyddol ar gyfer 2019-20;
- (ii) heb ragfarn o ran dyletswyddau ariannol y Cwmni, ei Fwrdd a'i weithwyr, i fodloni ei hun, at ei ddibenion ei hun, bod y rheolaethau ariannol a rheoli eraill a ddefnyddir gan y Cwmni wrth ddefnyddio arian Gweinidogion Cymru yn briodol ac yn ddigonol;
- (iii) ar gyfer cysylltu â'r Cwmni i adolygu ei berfformiad ariannol yn erbyn ei Gynllun Gweithredol a'i gyflawniad yn erbyn targedau 2019-20.

3.3.16 Y pwynt cyswllt arferol ar gyfer y Cwmni wrth ddelio â Llywodraeth Cymru yw'r Tîm Noddi, er y bydd gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru berthynas waith

â'r Cwmni hefyd.

Atebolrwydd a Chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni

3.3.17 Mae Prif Swyddog Gweithredol y Cwmni yn adrodd i Fwrdd y Cwmni. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni fel y nodir yn '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn bersonol gyfrifol am stiwardiaeth briodol y cronfeydd cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt; am weithrediadau a rheolaeth y Cwmni o ddydd i ddydd; ac am sicrhau y cydymffurfir â gofynion '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'.

3.3.18 Mae'n bosibl y bydd cyflogaion y Cwmni yn rhoi cymorth i'r Prif Swyddog Gweithredol gyda'i rôl. Gall y Prif Swyddog Gweithredol hefyd ddirprwyo'r gwaith o weinyddu'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd i'r cyflogaion hynny, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

3.3.19 Rhaid i'r Bwrdd fod yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau a roddir i'r Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu, a rhaid iddo ystyried y cyfrifoldebau hynny.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i Weinidogion Cymru ac i Fwrdd y Cwmni

3.3.20 Mae Prif Swyddog Gweithredol y Cwmni yn atebol i Weinidogion Cymru drwy Fwrdd y Cwmni am y canlynol:

- llofnodi cyfrifon y cwmni a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw yng nghyswllt y cyfrifon;
- sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru;
- llofnodi datganiad o gyfrifoldebau ar gyfer eu cynnwys yn y cyfrifon;
- llofnodi Datganiad Llywodraethu ar gyfer ei gynnwys yn y cyfrifon;
- cefnogi Cyfarwyddwr Cyffredinol HSS, ESNR ac EPS i roi tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r Cwmni sy'n codi gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin neu Bwyllgorau Seneddol eraill, i ystyried stiwardiaeth y Cwmni dros adnoddau cyhoeddus;
- gweithredu ar argymhellion y Pwyllgorau hynny sydd wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

Cyfrifoldebau o ran y Tîm Noddi

3.3.21 Mae Prif Swyddog Gweithredol y Cwmni yn atebol i'r Tîm Noddi (yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) am y canlynol:

- sefydlu, mewn cytundeb â'r Tîm Noddi, Cynllun Gweithredol Hwb

Gwyddorau Bywyd Cymru a'r Cynllun Busnes Blynyddol;

- rhoi gwybod i'r tîm Noddi am gynnydd o ran cyflawni amcanion Cynlluniau'r Cwmni (hynny yw, Cynllun Gweithredol y Cwmni ar gyfer 2019-24 sy'n ymgorffori ei gynllun busnes blynyddol ar gyfer 2019-20), a dangos sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny;
- sicrhau bod rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro am berfformiad a chyllid yn cael eu darparu i'r Tîm Noddi;
- bod y Tîm Noddi yn cael gwybod yn brydlon os yw gorwariant neu danwariant yn debygol, a bod camau cywirol yn cael eu cymryd;
- sicrhau bod y Tîm Noddi yn cael gwybod am broblemau sylweddol cyn gynted â phosibl;
- darparu i'r Tîm Noddi unrhyw wybodaeth am ei berfformiad a'i wariant sy'n ofynnol yn rhesymol ganddo.

Cyfrifoldebau yng nghyswllt Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

3.3.22 Y Prif Swyddog Gweithredol yw prif gynghorydd y Bwrdd ar gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n atebol i'r Bwrdd. Rôl y Prif Swyddog Gweithredol yw rhoi arweiniad gweithredol i'r Cwmni a sicrhau bod nodau ac amcanion y Bwrdd yn cael eu bodloni a bod swyddogaethau'r Cwmni yn cael eu cyflawni a bod targedau'n cael eu cyrraedd. Dylai'r swyddog cyfrifyddu mewn sefydliad gael ei gefnogi gan Fwrdd sydd wedi'i strwythuro yn unol â'r *Cod Llywodraethu Corfforaethol*.

3.3.23 Maent hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- cynghori'r Bwrdd ar gyflawni ei gyfrifoldebau fel y nodir yn y ddogfen Fframwaith interim hon, y gyfraith berthnasol, llythyr cylch gwaith y Gweinidog neu unrhyw ohebiaeth arall i'r Cwmni; ac unrhyw ganllawiau eraill a allai gael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd;
- cynghori'r Bwrdd ar berfformiad y Cwmni mewn perthynas â'i nodau a'i amcanion;
- sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau ariannol ar bob cam wrth ddod i benderfyniad a rhoi'r penderfyniad hwnnw ar waith, a bod technegau arfarnu cyllid addas yn cael eu dilyn;
- sicrhau system lywodraethu a sicrwydd corfforaethol da yn unol ag egwyddorion y [Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog](#), y [Cod Llywodraethu Corfforaethol, neu'r Cod Llywodraethu Elusennau, fel y bo'n berthnasol](#).
- sicrhau bod system rheoli risg yn cael ei chynnal i lywio penderfyniadau ar gynllunio ariannol a gweithredol, a helpu i gyflawni amcanion a thargedau;
- sicrhau bod prosesau rheolaeth fewnol a rheoli ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys camau i warchod rhag twyll a dwyn (dylai camau o'r fath ymgorffori system gynhwysfawr o awdurdodau dirprwyedig mewnol);
- sicrhau bod gweithdrefnau trin cwynion am y Cwmni yn cael eu

sefydlu;

- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar gael ar gyfer rheoli personél a bod y rhain yn cael eu cynnal a'u bod ar gael yn rhwydd i'r holl staff;
- gweithredu fel y bo'n briodol os yw'r bwrdd neu ei Gadeirydd yn ystyried dull gweithredu sy'n ymwneud â thrafodiad y mae'r Prif Weithredwr o'r farn y byddai'n torri gofynion priodoldeb neu reoleidd-dra; nid yw'n cynrychioli gweinyddiaeth ddarbodus na doeth, nac effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd; mae'n anymarferol neu mae'n anfoesegol.

3.3.24 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod safonau cyflogaeth moesegol yn cael eu gweithredu, gyda gwaith teg wrth wraidd y gwasanaeth a ddarperir ganddo.

3.3.25 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am benderfyniadau o ran staffio o fewn y Cwmni. Mae hyn yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud ag amodau a thelerau staff; cynnig cynllun pensiwn; a sicrhau y dilyni'r arferion recriwtio a gwerthuso swyddi teg, priodol a chadarn. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gynigion newid penodol, gan gynnwys trefniadau diswyddo – gweler **Atodiad 5** am fanylion.

3.3.26 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod taliadau'n cyd-fynd ag egwyddorion cyflog sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Dylai Pennaeth Cyflog a Thaliadau Llywodraeth Cymru roi gwybod am yr holl newidiadau cyflog a chytuno arnynt – edrychwch ar **Atodiad 5**. Rhaid i Weinidogion gytuno ar unrhyw gynigion i wneud newidiadau y tu allan i'r egwyddorion cyflog.

3.3.27 Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ddelio ag achosion sy'n ymwneud ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Bwrdd Cyfarwyddwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (Y Bwrdd)

3.3.28 Bydd gan Weinidogion Cymru fynediad at holl bapurau Bwrdd y Cwmni a gallant fynd i gyfarfodydd bwrdd neu ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i arsylwr [a benodir yn unol ag erthyglau cymdeithasu'r Cwmni]. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd arsylwr LIC yn chwarae unrhyw ran ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd. Dylai'r Cwmni hefyd dynnu sylw'r tîm nawdd at unrhyw faterion newydd, dadleuol, ôl-weithredol neu anodd sydd i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd, cyn y cyfarfod.

3.3.29 Penodir Cyfarwyddwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni.

3.3.30 Penodir y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd am gyfnod o 3 blynedd gan y Gweinidog. Pan fo'r rhain yn benodiadau rheoledig, maent i'w gwneud yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

3.3.31 Rôl Bwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw:

- darparu arweinyddiaeth effeithiol i'r Cwmni; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- sefydlu a bwrw ymlaen â nodau ac amcanion strategol y Cwmni sy'n gyson â'i bwrpas cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog;
- sicrhau bod y Gweinidog a'r tîm noddi yn cael gwybod yn llawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Cwmni neu ba mor gyraeddadwy yw ei dargedau, a'r camau sydd eu hangen i ddelio â newidiadau o'r fath;
- hyrwyddo safonau uchel yng nghyswllt cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau'r Cwmni yn cael eu cynnal yn effeithlon ac effeithiol;
- monitro perfformiad i sicrhau bod y Cwmni'n cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad;
- sicrhau bod y Cwmni yn ystyried cyfle cyfartal wrth gymeradwyo polisiau a gwneud penderfyniadau;
- sicrhau bod strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer cyflawni amcanion y Cwmni yn unol â'r polisiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Cwmni ar y cyd â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill, er enghraifft cyflogaion, cwsmeriaid a darparwyr cyllid;
- sicrhau bod trefniadau bancio'r Cwmni yn ddigonol at ei ddibenion;
- sicrhau y rhoddir trefniadau effeithiol ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, archwilio mewnol, archwilio allanol a rheolaeth fewnol, yn unol â gofynion statudol a rheoleiddio cymwysadwy a, pan fo hynny'n berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n gymwys i'r sector;
- hyrwyddo egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan, sef: bod yn anhunanol, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored ac yn onest ac arweinyddiaeth.

3.3.32 Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaid ag unrhyw ofynion gweinyddol neu statudol sy'n ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus;
- bod y Cwmni'n gweithredu yn unol â therfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno gyda'r tîm noddi, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus;
- sicrhau bod y Cwmni, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;

- sicrhau ei fod yn derbyn ac yn adolygu gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â rheoli'r Cwmni yn rheolaidd;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybod yn brydlon am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar faint o adnoddau fydd eu hangen yn y dyfodol ac unrhyw newidiadau i bolisiau neu ymarfer a allai gael goblygiadau ariannol eang;
- cymryd camau unioni priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau o'r fath sydd â goblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol am yr un peth i'r Gweinidog drwy'r tîm noddi.

3.3.33 Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddo sefydlu Pwyllgor Archwilio dan gadeiryddiaeth aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd) i roi cyngor annibynnol iddo. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei hun o effeithiolrwydd y systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol.

3.3.34 Cyfrifoldeb personol y Prif Swyddog Gweithredol fel Swyddog Cyfrifyddu yw sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian mewn unrhyw ffordd yn tynnu oddi wrth ddyletswyddau aelodau'r Bwrdd, y mae gan bob un ohonynt ddyletswydd i weithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, ac i sicrhau bod gweithgareddau'r Cwmni'n cael eu cynnal mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Rhaid i'r Bwrdd beidio â rhoi unrhyw gyfarwyddiadau i'r Prif Weithredwr sy'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni.

3.3.35 Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- penodi aelod o'r Bwrdd yn Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth (SIRO) gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod asedau gwybodaeth a risgiau o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli fel proses fusnes yn hytrach na mater technegol. Bydd y SIRO yn sicrhau bod risgiau gwybodaeth sy'n effeithio ar amcanion busnes yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd ac yn cael sylw;
- sicrhau bod trefniadau diogelu gwybodaeth yn cael eu hardystio'n annibynnol.

3.3.36 I'r graddau a ganiateir gan y Ddeddf berthnasol, gall y Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i staff ond yn y pen draw mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol am yr holl faterion hynny. Rhaid i'r Cwmni gadw rhestr o faterion sydd wedi'u cadw i gael penderfyniad gan ei Fwrdd, yn ogystal â'r fframwaith dirprwyo a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Cyfrifoldebau Personol y Cadeirydd

3.3.37 Bydd Cadeirydd y Cwmni yn adrodd i Lywodraeth Cymru, drwy Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni. Bydd Gweinidogion Cymru, drwy Lywodraeth Cymru, yn cael eu cynrychioli yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu eu dirprwy.

3.3.38 Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog a gall hefyd gael ei ddal yn atebol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Gweinidog, o ran busnes arferol, gael ei gynnal drwy'r Cadeirydd. Disgwylir i'r Cadeirydd sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath.

3.3.38 Rhaid i'r Cadeirydd a'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw a rhaid iddynt gyhoeddi agendâu a chofnodion ar ei wefan.

3.3.39 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiâu a gweithredoedd y Bwrdd yn cefnogi polisiâu strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Cwmni yn cael eu cynnal yn gywir. Lle bo'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd wneud trefniadau i gyfathrebu a lledaenu'r polisiâu a'r camau gweithredu hyn ar draws y Cwmni.

3.3.40 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arwain penodol dros y canlynol:

- llunio strategaethau'r Bwrdd;
- sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli ariannol a statudol perthnasol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- hyrwyddo defnyddio staff ac adnoddau eraill yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- sicrhau safonau uchel o ran rheoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu;
- mynegi barn y Bwrdd i'r cyhoedd.

3.3.14 Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod holl Aelodau'r Bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad, ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion adrodd a rheolaeth ariannol cyrff y sector cyhoeddus, ac ar y gwahaniaethau, a allai fodoli rhwng ymarfer yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod gan y Bwrdd gydbwysedd sgiliau sy'n briodol i gyfarwyddo busnes y Cwmni
- hysbysu'r Tîm Noddi o unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur neu aelodaeth y Bwrdd;
- asesu perfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r tîm noddi;
- sicrhau bod cod ymddygiad priodol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn ei le sy'n gyson â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru; Cod Ymarfer Da (Chwefror 2017) fel y mae'n berthnasol i Gyrff Cyhoeddus hyd braich Llywodraeth Cymru. Rhaid i hyn gynnwys rheolau ac arweiniad ar fuddiannau a gwrthdaro rhwng buddiannau aelodau'r Bwrdd.

Cyfrifoldebau Aelodau Unigol y Bwrdd

3.3.42 Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau'r Bwrdd sicrhau'r canlynol:

- cydymffurfio bob amser â Chod Ymddygiad y Cwmni ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, a'r holl reolau perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a gwrthdaro rhwng buddiannau;
- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth maent yn ei chael yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er eu budd personol eu hunain neu fantais wleidyddol, na cheisio defnyddio'r cyfle y mae gwasanaeth cyhoeddus yn ei roi i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau unigolion neu sefydliadau y mae ganddynt berthynas â nhw;
- cydymffurfio â rheolau'r Cwmni ar dderbyn rhoddion a lletygarwch, a buddiannau busnes allanol;
- gweithredu'n ddidwyll bob amser ac er budd gorau'r Cwmni.

3.4 Trefniadau Cyfrifyddu, Adroddiadau Ariannol ac Archwilio

Cyfrifon Statudol

- 341 Mae'r gofynion cyfrifyddu ac adrodd statudol ar gyfer y Cwmni wedi'u nodi yn Neddf Cwmnïau 2006. Bydd y Cwmni'n paratoi, yn cymeradwyo, yn llofnodi ac yn cyhoeddi ei ddatganiadau ariannol bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n berthnasol i'w sector.
- 342 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cael eu harchwilio a'u cymeradwyo i gwrdd ag amserlen Llywodraeth Cymru. (**Atodiad 2**).
- 343 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Cwmni'n cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei weithgareddau. Rhaid cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Gweinidog cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol, fel arfer erbyn 30 Mehefin fan bellaf.
- 344 Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi cyfrifon, mae angen cadw cofrestrau o'r canlynol:
- Rhoddion a gafwyd ac a roddwyd;
 - Lletygarwch a gafwyd ac a gynigiwyd;
 - Colledion a thaliadau arbennig fel y maent wedi'u disgrifio yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.
- 345 Mae'r cofrestrau hyn yn ei gwneud yn bosibl i fodloni'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Adroddiad Blynyddol

- 346 Yn ogystal â gofynion y Ddeddf Cwmnïau, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni wneud y canlynol:
- rhoi amlinelliad o brif weithgareddau a pherfformiad y Cwmni yn y flwyddyn ariannol flaenorol;
 - adrodd i'r tîm Noddi ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chyflawniadau eraill, ac amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran ystyried themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru;
 - adrodd ar weithgareddau unrhyw gyrff corfforaethol sydd o dan ei reolaeth;
 - cynnwys crynodeb o gyfrifon archwiliedig y Cwmni a chyfrifon archwiliedig llawn mewn un ddogfen;
 - nodi'n glir y berthynas rhwng y Cwmni a Gweinidogion Cymru fel aelod Warrantwr o'r Cwmni mewn ffordd y gall aelodau'r cyhoedd ei deall.
 - dangos cynnydd y Cwmni tuag at ei gyfraniad i gyflawni'r saith nod llesiant.

Cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol

- 347 Cyn gynted ag y bydd yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, rhaid i'r Cwmni gysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd allanol arall lle bo'n briodol a'r Tîm Noddi ynghylch yr union amserlen ar gyfer gosod a chyhoeddi'r Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol.
- 348 Rhaid cyflwyno drafft o'r Adroddiad Blynyddol i'r Gweinidog cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol. Rhaid cyflwyno drafft o'r adroddiad i'r tîm noddi o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn ei argraffu.
- 349 Rhaid i'r Cwmni gyflwyno'r cyfrifon wedi'u llofnodi, ynghyd â llythyr cynrychiolaeth, i ACC neu archwilydd allanol arall lle bo hynny'n briodol. Rhaid anfon dau (2) gopi o'r cyfrifon wedi'u llofnodi hefyd at y tîm Noddi ar ffurf copi caled.

Trefniadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg

- 34.10 Rhaid i'r Cwmni gael Pwyllgor Archwilio a Risg o'i Fwrdd, sy'n gyfrifol am gynghori ei Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ar ddigonolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a materion llywodraethu corfforaethol. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i'r Bwrdd, a bydd yn atebol iddo.
- 34.11 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol (ond nid y Cadeirydd) a bydd yn rhoi cyngor annibynnol i'r Bwrdd. Bydd gan y cyfarwyddwr anweithredol dynodedig brofiad ariannol diweddar a pherthnasol a chymhwyster proffesiynol gan gorff cyfrifyddu.

Archwilio Mewnol

34.12 Rhaid i'r Cwmni:

- sefydlu a chynnal trefniadau ar gyfer archwilio mewnol yn unol â'r amcanion, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, <https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-internal-audit-standards> ;
- sicrhau, os darperir y swyddogaeth archwilio fewnol yn fewnol, y gwneir trefniadau ar gyfer adolygiadau ansawdd allanol o'i swyddogaeth archwilio fewnol o leiaf unwaith bob pum mlynedd, ac yn unol â PSIAS.
- yn dilyn cymeradwyaeth gan y corff dyfarnu a'r pwyllgor archwilio, cyflwyno'r strategaeth archwilio, y cynlluniau archwilio cyfnodol a'r adroddiad archwilio blynyddol (gan gynnwys barn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar reoli a llywodraethu risg) i'r tîm noddi bob blwyddyn;
- rhoi gwybod i'r tîm noddi cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau sylweddol i gylch gorchwyl ei drefniadau archwilio mewnol, a/neu ei Bwyllgor Archwilio a Risg.

34.13 Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- gael hawl i weld yr holl ddogfennau a gaiff eu paratoi gan archwilydd mewnol y Cwmni, gan gynnwys lle mae'r gwasanaeth wedi'i gontractio allan;
- yn unol â threfniadau goruchwyllo y cytunwyd arnynt, asesu effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol y Cwmni drwy graffu ar eu cynlluniau ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol, adroddiadau ar weithgarwch yn y gorffennol a'i adroddiad sicrwydd blynyddol (h.y. barn Pennaeth Archwilio Mewnol y Cwmni ar ei reoli, ei reoli a'i lywodraethu yng nghyswllt risg).

Archwilio Allanol

34.14 Bydd y Cwmni'n gwneud ei drefniadau ar gyfer archwilio allanol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, ac unrhyw ofynion y gall Llywodraeth Cymru eu pennu o bryd i'w gilydd.

34.15 Os gofynnir iddo wneud hynny, bydd y Cwmni'n trefnu i'w archwilydd allanol ddarparu'r sail resymegol ar gyfer ei farn archwilio i Lywodraeth Cymru ac i archwilydd allanol Llywodraeth Cymru (gweler **paragraff 3.4.17** isod).

34.16 Fel archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, bydd y Cwmni'n darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru unrhyw gymorth, gwybodaeth neu esboniadau y mae'n gofyn yn rhesymol amdanynt wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

34.17 O dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal archwiliadau i'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r Cwmni wedi defnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. O dan adran 145A, caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal astudiaethau sydd wedi'u cynllunio i'w alluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau cyrff, ac astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau. At ddibenion yr archwiliadau hyn, yn ogystal â'r archwiliad ariannol statudol, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl mynediad statudol i ddogfennau. Ar ben hynny, yn unol ag amodau grantiau a chontractau, bydd y Cwmni yn darparu i Archwilydd Cyffredinol Cymru arfer y cyfryw fynediad at ddogfennau a ddelir gan dderbynwyr grant a chontractwyr ac is-gontractwyr fel sy'n ofynnol ar gyfer yr archwiliadau hyn; a bydd yn gwneud ei orau glas i sicrhau mynediad i Archwilydd Cyffredinol Cymru at unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac sy'n cael eu dal gan gyrff eraill.

Hawl Mynediad Llywodraeth Cymru / Tîm Noddi

34.18 Os bydd yr angen yn codi, mae gan y Tîm Noddi hawl i weld holl gofnodion a staff y Cwmni at ddibenion monitro, gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau ac ymchwiliadau gweithredol. Bydd staff y Cwmni'n darparu unrhyw gymorth, gwybodaeth neu eglurhad yn ôl cais y Tîm Noddi, a all, gan weithredu'n rhesymol, benderfynu cynnal adolygiad llywodraethu ffurfiol o'r Cwmni, mewn amgylchiadau lle mae pryder penodol yn codi.

Cyllid Ewropeaidd

34.19 Mae'n agored i'r Cwmni wneud cais am gyllid gan yr UE. Mae trefniadau penodol ar waith rhwng y Cwmni a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfrifo derbyniadau'r CE, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw'r rhaniad rhwng arian Ewropeaidd a chyllid Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r Cwmni sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw sy'n ymwneud â gwahanu cyfrifon a rhoi gwybod i'r Tîm Noddi pan dderbynnir cyllid.

4. Trefniadau Rheoli

4.1 Cyffredinol

4.1.1 Oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan y Tîm Noddi, bydd y Cwmni bob amser yn dilyn egwyddorion, rheolau, canllawiau a chynghor "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" a'r Ddogfen Fframwaith hon, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau am eithriadau at y Tîm Noddi yn y lle cyntaf. Ceir rhestr o'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau eraill y mae'n rhaid i'r Cwmni gydymffurfio â nhw yn **Atodiadau 3 a 5**.

4.1.2 Rhaid i'r Cwmni sicrhau bod y berthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei chydabod yn briodol drwy ddefnyddio nod brand noddwr Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r Tîm Noddi.

4.1.3 O bryd i'w gilydd, bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am wybodaeth a data

penodol gan y Cwmni. Mae'n bosibl hefyd y cyhoeddir cyngor a chanllawiau y mae angen i gyrrff cyhoeddus eu hystyried gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn ogystal â Thrysorlys Ei Mawrhydi.

- 4.1.4 Bydd y Cwmni hefyd yn sicrhau bod copïau o'r holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r Cwmni gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hysbysiadau i'r wasg neu ddeunyddiau/gweithgareddau hyrwyddo ar gyfer materion sy'n newydd neu'n ddadleuol. Mae diffiniad o'r hyn a all fod yn newydd neu'n ddadleuol i'w weld ym **mharagraff 5.1.1**.
- 4.1.5 Y Cwmni sy'n gyfrifol am gydymffurfio â rheolau a rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Undeb Ewropeaidd; mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyswllt materion Cymorth Gwladwriaethol. Fodd bynnag, rhaid i'r Cwmni geisio cymeradwyaeth gan yr Uned Cymorth Gwladwriaethol yn Llywodraeth Cymru (drwy'r Tîm Noddi) cyn cynnal trafodaethau ffurfiol ynghylch materion sydd o fewn cymhwysedd Aelod Wladwriaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, Cynrychiolydd y DU ym Mrwsel (UKREP), yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) neu unrhyw sefydliad arall yn y Llywodraeth.
- 4.1.6 Ni chaiff y Cwmni ymrwymo i unrhyw drefniant neu gytundeb yng nghyswllt lleoliad unrhyw un o'i swyddfeydd (gan gynnwys unrhyw estyniad i'w swydd bresennol) heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- 4.1.7 Ni chaiff y Cwmni aseinio, trosglwyddo nac isgontractio unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y ddogfen Fframwaith interim hon i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru. I'r graddau y mae Llywodraeth Cymru yn cydsynio, bydd hyn yn amodol ar y canlynol:
- y trydydd parti sydd â'r yswiriant indemniad angenrheidiol i ddiogelu Llywodraeth Cymru rhag colledion y gellir eu hyswirio;
 - bod y trydydd parti wedi'i rwymo gan rwymedigaethau sy'n cyfateb i rwymedigaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o dan y ddogfen hon ar sail sy'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru;
 - nad yw'r trydydd parti'n cael aseinio, trosglwyddo nac isgontractio unrhyw rai o'i rwymedigaethau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- 4.1.8 Er mwyn cyflawni ei nodau, bydd y Cwmni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yng Nghymru gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, gan adlewyrchu ymrwymadau cytundebau partneriaeth Gweinidogion Cymru gyda'r sectorau gwirfoddol, busnes a llywodraeth leol.

4.2 Staff

Recriwtio, Cadw a Rheoli Staff

- 4.2.1 Mae'r Cwmni'n gyfrifol am recriwtio, cadw a rheoli ei staff mewn modd teg ac agored a bydd yn penderfynu bod ei strwythur staff o fewn y paramedrau a nodir yn y ddogfen hon. Gall y Cwmni amrywio cyfanswm nifer y staff a

gyflogir yn ôl yr angen ond heb amharu ar yr adnoddau sydd eu hangen arno i gyflawni ei nodau a'i amcanion.

4.2.2 Bydd y Cwmni:

- wrth recriwtio, rheoli a datblygu staff, yn dilyn egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth ddefnyddio adnoddau fel y nodir yn “*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*”, yn enwedig Pennod 4 sy'n delio â rheolaeth fewnol a strwythurau llywodraeth;
- yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i Dîm Rheoli Gweithredol y Cwmni i'r Tîm Noddi yn ddi-oed;
- yn gwrthod creu unrhyw swyddi ychwanegol oni bai ei fod yn gallu eu hariannu;
- yn sicrhau bod ganddo swyddogaeth Adnoddau Dynol benodol i wasanaethu'r Cwmni. Bydd yn datblygu amrywiaeth o bolisiâu AD, gan gynnwys:
 - polisiâu rheoli a datblygu staff sy'n adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer gwerthuso staff a rheoli perfformiad, gan gynnwys hyfforddi a datblygu, er mwyn annog staff i gael gafael ar unrhyw sgiliau ac ymddygiad proffesiynol, rheolaethol ac eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni eu rolau;
 - Cod Ymddygiad ar gyfer staff i gynnwys materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, amrywiaeth, urddas a pharch;
 - gweithdrefnau cwyno a disgyblu priodol;
 - trefniadau priodol i ddelio ag unrhyw bryderon staff a allai godi ynghylch amhriodoldeb (chwythu'r chwiban);
- ymgynghori'n ystyrlon ac yn gymesur â'r staff perthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol y gwyddys y bydd, neu sy'n debygol o gael, effaith negyddol sylweddol arnynt;
- ei gwneud yn ofynnol i holl staff y Cwmni gydymffurfio ag egwyddorion uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd, didueddrwydd a didueddrwydd gwleidyddol.

Cyflog ac Amodau Gwasanaeth

4.2.3 Bydd holl staff y Cwmni yn ddarostyngedig i lefelau cyffredinol o dâl a thelerau ac amodau gwasanaeth (gan gynnwys pensiwn) a gymeradwywyd gan y Gweinidog. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r telerau a'r amodau hynny, gan gynnwys lefelau tâl, gael eu hawdurdodi gan y Gweinidog.

4.2.4 Nid oes gan y Cwmni bwerau dirprwyedig i ddiwygio ei delerau ac amodau cyffredinol. Fodd bynnag, gall y Cwmni amrywio contractau cyflogaeth unigol heb holi'r Gweinidog ar yr amod bod unrhyw newidiadau o fewn fframwaith cyffredinol y telerau a'r amodau a gymeradwywyd gan y Gweinidog.

Cylch cyflog

4.2.6 Bydd y Cwmni'n cyflwyno achos manwl i'r tîm Noddi ar gyfer ei gylch gwaith

cyflog 3 blynedd. Bydd y cylch cyflog yn y fformat a bennir gan Lywodraeth Cymru a rhaid iddo adlewyrchu anghenion y sefydliad o ran newidiadau mewn cyflog, graddio a thelerau ac amodau gwasanaeth eraill. Rhaid i'r cynigion sicrhau'r canlynol bod wedi'i gostio'n llawn a dangos ei fod yn fforddiadwy. Disgwylir i'r Cwmni weithredu system gyflog sy'n rhoi cyfle cyfartal i'r holl staff symud ymlaen.

4.2.7 Rhaid i bob trefniant cyflog fod yn destun archwiliad cyflog cyfartal ac, ar ben hynny, bydd angen tystiolaeth o bryd i'w gilydd fod y Cwmni wedi cael sicrwydd annibynnol yng nghyswllt ei archwiliad cyflog cyfartal.

4.2.8 Rhaid i'r Hwb ystyried cyhoeddiad Trysorlys EM ym mis Mai 2012, "Adolygiad o drefniadau treth y rheini sy'n cael eu penodi yn y sector cyhoeddus" a'r argymhellion yng nghyswllt unigolion sy'n cael eu cyflogi 'oddi ar y gyflogres'. Dyma'r egwyddorion:

- Dylai aelodau'r Bwrdd ac uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol fod ar gyflogres y Cwmni, oni bai fod amgylchiadau eithriadol – os felly, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r trefniadau – a dylai eithriadau o'r fath fodoli am ddim hwy na chwe mis;
- Dylai ymrwymadau sy'n para mwy na chwe mis, am fwy na chyfradd ddyddiol o £220 (sy'n cyfateb i £58,200 y flwyddyn) gynnwys darpariaethau cytundebol sy'n caniatáu i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gael sicrwydd ynghylch rhwymedigaethau treth incwm a NICS y trefnydd – a therfynu'r contract os na ddarperir y sicrwydd hwnnw;
- Dylai ymrwymadau sy'n para mwy na chwe mis, am gyfradd ddyddiol o £220 neu lai, y Cwmni benderfynu lle gallai darpariaethau a sicrwydd cytundebol fod yn briodol.

Buddion Staff a Gwobrau Di-dâl

4.2.9 Wrth osod buddion a gwobrau nad ydynt yn ymwneud â chyflog ar gyfer staff neu ffioedd ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol, rhaid i'r Cwmni ystyried a ydynt yn cynrychioli defnydd priodol o arian cyhoeddus, a rhaid iddo ystyried canllawiau Trysorlys EM ar "Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian" a "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" Llywodraeth Cymru.

Pensiynau

4.2.10 Bydd y Cwmni yn gwneud trefniadau pensiwn priodol ar gyfer ei staff.

4.2.11 Bydd staff cymwys y Cwmni yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar ei gynllun pensiwn galwedigaethol cymeradwy. Efallai y bydd angen i'r tîm noddi gael manylion am nifer y staff sy'n dewis peidio â bod yn rhan o'r cynllun pensiwn galwedigaethol ar ôl cael eu cofrestru'n awtomatig o bryd i'w gilydd.

4.2.12 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i gyflogwyr roi gwybod am TWE mewn amser real. Bydd cyflogwyr a darparwyr pensiwn yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM am dreth, cyfraniadau yswiriant gwladol a didyniadau eraill pan wneir y taliadau neu cyn hynny, yn hytrach nag aros tan ar ôl diwedd y flwyddyn

ariannol.

Dileu Swydd, Diswyddo ac Iawndal

4.2.13 Rhaid i unrhyw daliadau diswyddo neu daliadau iawndal eraill am golli swydd gael eu gwneud yn unol â chynllun a gymeradwywyd gan y tîm noddi. Bydd unrhyw gynnig i wneud taliadau y tu allan i gynllun cymeradwy yn gofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm noddi. Rhaid i gynigion ar gyfer diswyddo gydymffurfio â'r rheolau a nodir ym Mhennod 4 "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru". Rhaid i'r tîm noddi gytuno ar ailgyflogi unrhyw staff yn dilyn iawndal diswyddo/dileu swydd cyn unrhyw drafodaeth gyda'r unigolyn dan sylw. Y brif egwyddor yw na fydd unrhyw aelod o staff sy'n cael iawndal am golli swydd/cyflogaeth yn cael ei ailgyflogi gan y Cwmni yn ystod y cyfnod tybiannol y mae'r taliad yn cyfateb iddo.

4.3 Llythyr Cylch Gwaith

Fframwaith Cynllunio Busnes

4.3.1 Ar ddechrau tymor y Llywodraeth, neu bob blwyddyn ariannol os bydd angen, bydd y Gweinidog yn rhoi llythyr cylch gwaith i'r Cwmni yn nodi'r amcanion strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cwmni. Bydd y trefniant hwn yn parhau i fod mewn grym gydol oes y Llywodraeth (cyfnod y Llywodraeth), er y gellir diwygio'r cylch gwaith drwy rybudd ysgrifenedig os bydd blaenoriaethau gweinidogol yn newid. Mae crynodeb o gyfnod proses cylch gwaith y Llywodraeth ar gael drwy'r Tîm Noddi.

4.3.2 Bydd y Tîm Noddi, os yw'n berthnasol, a chyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, yn trafod y Llythyr Cylch Gwaith drafft gyda'r Cwmni ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Y Llythyr Cylch Gwaith i'w anfon fel arfer dim hwyrach na mis Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn berthnasol iddi.

Cynlluniau Gweithredol a Busnes

4.3.3 Bydd y Cwmni'n paratoi Cynllun Gweithredol wedi'i ategu gan gynllun busnes blynyddol, a fydd yn nodi sut y bydd yn cyflawni ei amcanion strategol. Y cynllun terfynol, y cytunwyd arno gan y Gweinidog, yw adlewyrchu nodau ac amcanion strategol y Cwmni ac, fel arfer, bydd yn aros yn ei le am dymor cyfan y Llywodraeth (h.y. am bum mlynedd) oni nodir fel arall. Bydd cynnwys y Cynllun Gweithredol yn seiliedig ar y Llythyr Cylch Gwaith, cyfnod cynllun busnes y Llywodraeth a lefel y cyllid a gadarnhawyd sydd ar gael.

4.3.4 Bydd y Cynllun Gweithredol / Cynllun Busnes Blynyddol yn cynnwys:

- nodau ac amcanion y Cwmni a'i strategaeth ar gyfer eu cyflawni;
- datganiad o'i flaenoriaethau a'i adnoddau;
- disgrifiad o'r gweithgareddau arfaethedig, eu costau a'r canlyniadau arfaethedig;
- dangosyddion perfformiad a mesurau canlyniadau ac unrhyw werthusiadau sydd wedi'u cynllunio, gan gynnwys y gydberthynas

rhwng y gweithgareddau arfaethedig;

- goblygiadau cost y gweithgareddau arfaethedig;
- datganiad am ymrwymiad y Cwmni i gynaliadwyedd, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg; gan gynnwys sut mae'n bwriadu bodloni'r gofynion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- adolygiad o berfformiad yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- cyllideb ar gyfer y flwyddyn (h.y. y flwyddyn gyfredol) a'r rhagolwg ar gyfer y 12 mis nesaf (h.y. 2020/21), sef gweddill tymor y Llywodraeth.

Cymeradwyo Cynlluniau

4.3.5 Rhaid i gynnwys y Cynllun Gweithredol gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog dynodedig yng Nghymru yn unol â'r amserlen sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad 2**.

Cynllunio'r Gyllideb

4.3.6 Gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n rheoli trefniadau cynllunio cyllidebau Llywodraeth Cymru.

4.3.7 Rhaid i'r Cwmni gydweithredu â'r Tîm Noddi drwy ddarparu'r holl gymorth a'r wybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'i phenderfyniadau cynllunio cyllideb.

4.3.8 Bydd y Gweinidog yn cadarnhau faint o gyllid fydd yn cael ei ddarparu i'r Cwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ynghyd â manylion cyllid dangosol ar gyfer gweddill blynnyddoedd cyfnod y Llywodraeth er mwyn cyfrannu at gynllunio'r Gyllideb. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd cyn pen un mis ar yr hwyraf ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar y gyllideb derfynol Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol awdurdodi unrhyw gyllid ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol.

Rheoli Perfformiad

4.3.9 Rhaid i'r Cwmni weithredu systemau rheoli, gwybodaeth a chyfrifyddu sy'n ei alluogi i adolygu ei berfformiad ariannol ac anariannol mewn modd amserol ac effeithiol yn erbyn ei amcanion a'i dargedau. Rhaid iddo roi gwybod i'r Tîm Noddi am unrhyw newidiadau a allai wneud y broses o gyflawni amcanion yn anoddach neu'n llai anodd.

4.3.10 Yn unol â'r gofynion adrodd y cytunwyd arnynt, bob mis rhaid i'r Cwmni ddarparu adroddiad byr i'r Tîm Noddi sy'n nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y targedau allweddol a'r cerrig milltir a nodir yn y cynllun gweithredol. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys manylion gwariant gwirioneddol ac a dynnwyd ar gyfer y mis a'r flwyddyn hyd yn hyn yn erbyn y gyllideb gymeradwy, ynghyd â manylion y ffigurau gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ac esboniadau o unrhyw wahaniaethau a materion arwyddocaol.

4.3.11 Bydd y Cadeirydd yn cwrdd â'r Gweinidog yn ôl yr angen i drafod perfformiad y Cwmni a bydd diweddariadau rheolaidd i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Tîm Noddi, gan gynnwys cyfarfodydd misol i drafod cynnydd yn unol â'r

Trefniadau Adrodd ym **mharagraffau 5.4.1 i 5.4.3.**

4.3.12 Mae'n ddyletswydd ar y tîm Noddi i gynnal asesiadau cyfnodol o'r sicrwydd risg sydd ar gael iddynt a gall newid lefel yr oruchwyliaeth yn unol â hynny.

Is-gwmnïau a mentrau ar y cyd

4.3.13 Y tu allan i'r Cynlluniau cymeradwy, ni chaiff y Cwmni sefydlu is-gwmnïau na mentrau ar y cyd sy'n cynnwys sefydlu cerbydau pwrpas arbennig megis cwmnïau, partneriaethau neu unrhyw strwythur arall gyda hunaniaeth gyfreithiol ac atebolrwydd heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gweinidog.

4.3.14 Rhaid i unrhyw is-gwmni neu fenter ar y cyd a reolir neu sy'n eiddo i'r Cwmni gael ei gyfuno yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol, a bydd yn ddarostyngedig i'r rheolaethau a'r gofynion a nodir yn y ddogfen Fframwaith interim hon. Mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw wyro oddi wrth y dull hwn.

Asedau Sefydlog

4.3.15 Bydd y Cwmni'n cadw cofrestr gywir a chyfredol o'r asedau ffisegol sydd ganddo, a fydd hefyd yn cofnodi unrhyw waredu ar asedau o'r fath o bryd i'w gilydd.

4.3.16 Bydd unrhyw waredu asedau dros ben sydd ag amcangyfrif o fwy na £25,000, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac oni bai fod y Tîm Noddi yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig, ar ffurf gwerthiant drwy arwerthiant neu dendr cystadleuol.

Adrodd am Eithriadau

4.3.17 Rhaid i'r Cwmni roi gwybod i'r Tîm Noddi cyn gynted ag y daw'n amlwg:

- os yw'r gwariant blwyddyn lawn yn debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth a gymeradwywyd ganddo;
- os yw'n debygol o danwario mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 3 y cant o gyfanswm ei gymorth grant.

4.3.18 Bydd hefyd yn darparu:

- adroddiad blynyddol o golledion a gafodd eu dileu a thaliadau arbennig a gafodd eu gwneud neu eu cymeradwyo yn ystod y deuddeng mis blaenorol;
- adroddiad blynyddol sy'n amlinellu pob achos o dwyll a dwyn y mae wedi dod i gysylltiad ag ef.

5. Cyfrifoldebau Ariannol

5.1 Gwariant

5.1.1 Cyn gynted ag y bydd ei Gynllun Gweithredol wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog yn achos grant gweithredol, gall y Cwmni wario ar y gweithgareddau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredol heb gyfeirio ymhellach at y Tîm Noddi, yn amodol ar yr amodau canlynol:

- bydd yn cydymffurfio â'r telerau dirprwyo a nodir yn **Atodiad 5**;
- rhaid iddo gael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru (drwy Ddirprwy Gyfarwyddwr y Tîm Noddi) cyn cychwyn unrhyw un o'r canlynol:-
 - unrhyw wyro oddi wrth y telerau dirprwyo a nodir yn **Atodiad 5**;
 - gwneud unrhyw wariant neu gyflawni unrhyw weithgaredd sy'n newydd, yn ddadleuol neu'n ailadroddus yn unol â '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*', ac at y dibenion hyn yn cynnwys cynigion:
 - sy'n arfer ansafonol
 - sy'n wleidyddol sensitif a/neu'n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau
 - a allai arwain at ganlyniadau annerbyniol i'r sefydliad a/neu i'r sector cyhoeddus ehangach.
- gweithredu unrhyw newid mewn polisi neu ymarfer sydd â goblygiadau ehangach (ac eithrio unrhyw newid y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun Corfforaethol neu'r Cynllun Gweithredol);
- gwneud unrhyw newid sylweddol yng ngweithrediad strategol neu ariannu unrhyw gynllun neu gynllun penodol a gymeradwywyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru;
- bydd y Cwmni yn cydymffurfio â holl reolau caffael perthnasol yr UE a rhai rhyngwladol eraill ac yn dilyn y fframwaith polisi a nodir yn '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*';
- bod angen cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Noddi cyn i'r Cwmni adael contract gwerth £25,000 neu fwy heblaw yn unol â phroses gaffael gystadleuol;
- bydd y Cwmni'n gwrthod gwneud taliadau ymlaen llaw ac eithrio mewn achosion eithriadol lle mae'n rhaid glynu wrth yr egwyddorion a nodir yn '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*'.

Rhoddion a Lletygarwch

5.1.2 Rhaid i'r Cwmni fod yn agored ac yn dryloyw yn ei agwedd tuag at roddion a lletygarwch a rhaid iddo feddu ar bolisiâu clir ar ddatgelu gwybodaeth am roddion a lletygarwch a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer eu rhoi a'u derbyn.

- 5.1.3 Rhaid i'r Cwmni gadw cofnod o unrhyw roddion a lletygarwch a dderbynnir ac a wrthodir gan ei gyfarwyddwyr neu weithwyr sydd ag amcangyfrif gwerth o £20 neu fwy. Rhaid i gyfarwyddwyr a gweithwyr beidio â derbyn unrhyw rodd neu letygarwch y gellid ystyried ei fod yn peryglu eu barn bersonol neu eu huniondeb neu'n dylanwadu arnynt i ddangos ffafr neu anffafiaeth i unrhyw unigolyn neu sefydliad, neu i wneud unrhyw beth a allai arwain at ganfyddiad eu bod wedi cael eu tanseilio neu eu dylanwadu yn ei sgil.
- 5.1.4 Rhaid i unrhyw roddion, deunydd hyrwyddo neu letygarwch a ddarperir gan y Cwmni gael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gwerth am arian, rheoleidd-dra a phriodoldeb. Rhaid i'r Cwmni fod yn agored ac yn dryloyw yn ei agwedd tuag at roddion a rhaid iddo fod â pholisïau clir ar ddatgelu gwybodaeth am unrhyw roddion a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar eu cyfer.

Benthyca, Benthyg, Gwarantau a Buddsoddiadau

- 5.1.5 Ni chaiff y Cwmni, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Noddi:
- benthyca, gan gynnwys cyfleusterau benthyca dros dro ar ffurf cyfleuster gorddrafft wedi'i drefnu ymlaen llaw i bontio unrhyw fylchau rhwng trefniadau benthyca tymor hir;
 - benthyg;
 - codi tâl am unrhyw ased neu sicrwydd;
 - rhoi unrhyw warant, indemniadau neu lythyrau cysur;
 - achosi unrhyw rwymedigaeth ddibynnol arall gan wybod hynny (fel y disgrifir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*) boed hynny ar ffurf sy'n gyfreithiol rwymol ai peidio.
- 5.1.6 Ni chaiff ychwaith wneud unrhyw fuddsoddiadau heb sicrhau cymeradwyaeth *ysgrifenedig* ymlaen llaw gan y tîm noddi ac eithrio yng nghyswllt adneuo arian parod dros ben yn y tymor byr.

Grantiau i Drydydd Partïon

- 5.1.7 Ni chaiff y Cwmni ddatblygu na gweithredu cynllun grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Gweinidog.

5.2. Cyllid

- 5.2.1 Bydd yr holl ffrydiau incwm a nodir yn y paragraffau canlynol ('Incwm o Ffynonellau'r Siecr' a 'Incwm o Ffynonellau heb fod yn rhai Siecwyr'), yn cael eu trin fel arian cyhoeddus a bydd gofynion y Cytundeb hwn yr un mor berthnasol iddynt hwy.

Incwm o Ffynonellau'r Siecr

- 5.2.2 Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau i'r Cwmni o gymorth grant, sydd i'w talu mewn rhandaliadau misol, ar sail cais i'r tîm noddi. Rhaid i hwn gael ei ddarparu ar ffurf datganiad ariannol a'i gyflwyno gan unigolyn yr hysbyswyd y tîm noddi ei fod wedi'i awdurdodi i wneud y cais. Ni chaiff y Cwmni dynnu arian i lawr cyn bod angen.

5.2.3 Yn unol â *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, dylai'r perfformiad ariannol a ddisgwylir roi elw teg i Lywodraeth Cymru ar yr arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y busnes.

Incwm o Ffynonellau nad ydynt yn rhai Siecwyr

5.2.4 Cyn belled ag y bo modd, rhaid i'r Cwmni geisio cynyddu'r hyn mae'n ei dderbyn o ffynonellau ar wahân i'r Siecr os yw hyn yn gyson â'i swyddogaethau ac yn unol â'i gynlluniau busnes a gweithredol cymeradwy. Gall gadw derbyniadau hyd at y lefel a nodir yn y llythyr cylch gwaith, sy'n deillio, er enghraifft, o grantiau a roddir gan yr UE, grantiau a roddir drwy gronfeydd y loteri, neu unrhyw elw sy'n deillio o weithgareddau masnachol y Cwmni a'r rhai sy'n deillio o werthu gwasanaethau i farchnadoedd ehangach. Rhaid ymgymryd â gweithgarwch o'r fath yn unol â thelerau *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a'r ddogfen hon.

Cronfeydd Preifat

5.2.5 Ystyrir bod rhoddion, grantiau ar gyfer ymchwil gan sefydliadau nad ydynt yn rhai cyhoeddus, neu gymynroddion a roddir i'r Cwmni, yn gronfeydd preifat ac nid ydynt yn dod o dan delerau'r ddogfen Fframwaith interim hon. Dylid rheoli cyllid o'r fath yn unol â thelerau'r rhodd/grant neu'r gymynrodd.

5.2.6 Nid yw arian a dderbynnir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, adrannau eraill y llywodraeth, asiantaethau a sefydliadau cyhoeddus eraill, neu'r rheini sy'n cael eu hariannu'n bennaf gan y trethdalwr ac unrhyw elw o ddiddordebau neu weithgareddau masnachol y Cwmni, yn cyfrif fel cronfeydd preifat.

Contractau a ddyfernir gan y Cwmni i Endidau eraill

5.2.7 Rhaid i'r Cwmni gymryd camau i werthuso sefyllfa ariannol yr endid sy'n derbyn, e.e. drwy adolygu datganiadau ariannol a chydymffurfio â chyrrff adrodd statudol, a chynnal archwiliadau gydag asiantaethau archwilio credyd.

Cymorth Gwladwriaethol

5.2.8 Os yw'r Cwmni'n ymwneud â gweithgareddau economaidd masnachol, bydd angen iddo gydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd a sicrhau bod pob grant neu ddyfarniad hefyd yn cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol. Mae'r Cwmni'n gyfrifol am sicrhau lefelau priodol o dryloywder wrth adrodd ar y mathau o gymorth a ddarparwyd. Bydd y Cwmni'n defnyddio'r 5 prawf cymorth gwladol cyn dyfarnu grantiau ac yn sicrhau bod cymorth gwladwriaethol yn cael ei reoli'n briodol, gan gofio bod cymorth gwladwriaethol yn fantais mewn unrhyw ffurf o gwbl, a roddir ar sail ddethol i broses sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, gan roi mantais iddo na fyddai wedi'i chael fel arall. Edrychwch ar y tudalennau cymorth gwladwriaethol ar wefan Llywodraeth Cymru, sef:

<https://gweddi.gov.wales/funding/state-aid/?lang=en>

5.3 Balansau Arian

Rheoli Arian

Yn ystod y flwyddyn

5.3.1 Rhaid cadw balansau arian sydd wedi cronni gan Lywodraeth Cymru neu gronfeydd eraill y Siecr yn ystod y flwyddyn ariannol ar y lefel isaf sy'n gyson â gweithrediad effeithlon y Cwmni. Os dylai gwarged ariannol ddigwydd, rhaid ei adneuo nes y gellir ei ddefnyddio.

5.3.2 Rhaid i'r Cwmni geisio osgoi cadw balans gweithio sy'n fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 4 y cant o gyfanswm ei gyllideb gros flynyddol pan fydd yn derbyn pob rhandaliad o'r cyllid bob mis. Bydd unrhyw arian sy'n fwy na'r swm hwnnw a ddelir gan y Cwmni fel balans gweithio ar ddiwedd pob cyfnod cyllido yn cael ei ystyried wrth bennu faint o adnoddau sydd i'w talu yn y cyfnod canlynol.

Diwedd Blwyddyn

5.3.3 Caniateir i'r Cwmni gario drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf unrhyw falansau arian a dynnwyd allan ond nas gwariwyd o hyd at 2 y cant o gyfanswm ei gyllideb flynyddol gros y cytunwyd arni (h.y. fel y nodir yn y llythyr cylch gwaith ac yn cynnwys incwm y bernir ei fod o gronfeydd preifat). Rhaid i unrhyw gynnig i gario symiau dros ben sy'n fwy na'r swm hwn gael ei gytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru drwy'r Tîm Noddi fesul achos. Bydd unrhyw swm sy'n cael ei gario drosodd sy'n fwy na'r swm y cytunwyd arno yn cael ei ystyried yn y cyllid ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Rheoli Derbyniadau

5.3.4 Os yw'r derbyniadau a wireddir neu y disgwylir iddynt gael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol yn llai nag a amcangyfrifwyd, rhaid i'r Cwmni sicrhau gostyngiad cyfatebol yn ei daliadau gros fel nad eir y tu hwnt i'w ddarpariaeth awdurdodedig.

5.3.5 Os yw'r derbyniadau a wireddir, neu y disgwylir iddynt gael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol yn fwy na'r hyn a gafodd ei amcangyfrif, gall y Cwmni wneud cais i Lywodraeth Cymru i gadw'r incwm dros ben hwnnw ar gyfer gwariant penodedig ychwanegol.

Llog a Enillir ar Falansau Banc ac Arian Parod

5.3.6 Mae'r holl log, heb gynnwys unrhyw daliadau banc, a enillir gan y Cwmni ar ei falansau banc ac arian sy'n codi o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru i'w ddatgan bob mis ar ffurflen gais y Cwmni i dynnu arian i lawr a'i ildio i Drysorlys EM drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

5.4 Trefniadau Adrodd

5.4.1 Mae **paragraffau 5.4.2 i 5.4.3** yn disgrifio'r trefniadau adrodd ar gyfer darparu gwybodaeth gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i'r tîm noddi, ac mae Atodiad 2 yn cynnwys yr amserlen adrodd. Fel rheol gyffredinol, ni fydd y tîm noddi yn gofyn i'r Cwmni greu adroddiadau pwrpasol, ond bydd yn derbyn gwybodaeth yn y fformat a gynhrychir yn y Cwmni fel arfer.

5.4.2 Bydd y prif ddiweddariad lefel uchel i'r tîm noddi o leiaf:

- diweddariad ariannol misol hyd ddiwedd pob chwarter yn dangos yr union gyllideb;
- adroddiad amlygu rheoli misol a fydd yn nodi'r canlynol o leiaf:
 - adroddiad gan y Prif Swyddog Gweithredol neu ei ddirprwy dynodedig yn nodi'r prif gyflawniadau blaenoriaeth bryd hynny;
 - crynodeb o ddangosyddion perfformiad allweddol (galluogi cyflawniadau) gyda naratif yn nodi ffeithiau a materion allweddol;
 - crynodeb o'r gweithgareddau blaenoriaeth a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y mis canlynol ynghyd â naratif byr;
 - unrhyw faterion llosg neu gynhennus;
 - adroddiad ar y risgiau o ran cyllid, adnoddau neu drosglwyddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau cyflawni a pherfformio cyffredinol.

5.4.3 Cynhelir y cyfarfodydd rheolaidd canlynol:

- cyfarfod monitro perfformiad ddwywaith y flwyddyn rhwng y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu'r dirprwy a'r Prif Swyddog Gweithredol;
- cyfarfod rhwng y Gweinidog, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd yn llai aml nag yn flynyddol i drafod perfformiad y sefydliad, a chynnydd yn erbyn ei Gynllun Gweithredol;
- cyfarfod perfformiad a chyllid misol rhwng y Cwmni a'r Tîm Noddi i drafod yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.4.2.

5.5 Trosglwyddiadau

5.5.1 Gall y Cwmni ailddyrannu arian rhwng ei wahanol gyllidebau fel yr hysbysir gan y Gweinidog yn y llythyr cylch gwaith heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw y tîm Noddi ar yr amod:

- na chaiff unrhyw gyllideb ei chynyddu na'i gostwng fwy na 10 y cant neu £10,000 pa un bynnag yw'r lleiaf;
- nid yw'r ailddyraniad rhwng llinellau'r gyllideb cyfalaf a refeniw;
- gyda'i gilydd, nid yw taliadau net y Cwmni yn fwy na chyfanswm y gyllideb gymeradwy.

5.5.2 Er gwaethaf yr uchod, mae'n bosibl na fydd cyllideb costau rhedeg/gweinyddu'r Cwmni yn cael ei chynyddu heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw y tîm Noddi.

6. Gofynion Eraill

6.1 Rheoli Risg

- 6.1.1 Rhaid i'r Cwmni ddatblygu strategaeth rheoli risg i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw risgiau yn unol â'r canllawiau perthnasol ar yr arferion gorau ym maes llywodraethu corfforaethol.
- 6.1.2 Rhaid i'r Cwmni fabwysiadu a gweithredu polisiau ac arferion i ddiogelu ei hun rhag twyll a dwyn.
- 6.1.3 Rhaid i'r Cwmni gymryd camau rhesymol i werthuso statws ariannol unrhyw gwmni neu gorff arall y mae'n bwriadu ymrwymo i gontract gydag ef, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y caffael neu'r cynllun.

6.2 Yr Economi, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – Arfarnu, Ymchwil a Gwerthuso

- 6.2.1 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid i'r Cwmni feddu ar systemau priodol, a'r gallu, i sicrhau bod ei bolisiau a'i raglenni yn seiliedig ar dystiolaeth yng nghyswllt eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso.
- 6.2.2 Rhaid i'r Cwmni ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdani i ddangos ei atebolrwydd cyffredinol a'i effeithiolrwydd strategol a sut mae'n sicrhau gwelliant parhaus yn ymddangos yn rhesymol.
- 6.2.3 Bydd yn adolygu ei wasanaethau a'i weithgareddau'n rheolaidd a bydd yn cynnwys ei gynllun effeithlonrwydd blynyddol er gwybodaeth yn ei gynllun blynyddol i'r Tîm Noddi.
- 6.2.4 Rhaid i'r Cwmni hefyd sicrhau bod ei ddull o gynnal arfarniadau a gwerthusiadau yn gwbl gyson â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau.

6.3 Technoleg Gwybodaeth

- 6.3.1 Bydd y Cwmni'n gwneud trefniadau priodol i gyflawni ei ofynion Technoleg Gwybodaeth a bydd unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu waith a brynir yn y cyswllt hwn yn cael eu caffael yn gystadleuol lle bo hynny'n ofynnol dan y gyfraith, a rhaid iddo ddangos gwerth am arian beth bynnag.
- 6.3.2 Rhaid i'r Cwmni wneud trefniadau priodol i sicrhau diogelwch ei systemau gwybodaeth.
- 6.3.3 Rhaid i'r Cwmni wneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 a Deddf Diogelu Data 2018.

6.4 Yswiriant

6.4.1 Rhaid i'r Cwmni sicrhau ei fod yn gwneud trefniadau digonol ar gyfer yswiriant, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwyr.

6.5 Cwynion

6.5.1 Bydd y Cwmni'n cynnal a chadw, bob amser, Bolisi Cwyno cyfredol y dylid ei adolygu'n rheolaidd ond o leiaf unwaith bob dwy flynedd. Dylai'r Polisi Cwynion fod yn glir wrth ddatgan mewn achosion lle na ellir datrys materion rhwng yr achwynydd a'r Cwmni, yna bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Tîm Noddi i'w adolygu.

Cafodd telerau'r Ddogfen Fframwaith Interim hon eu cymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a daethant i rym ar 1 Ebrill



Llofnod...

Cyfarwyddwr Cyffredinol y
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, Llywodraeth

Dyddiedig 25 Medi 2019

Llofno



Prif Swyddog Gweithredol,
Hwb Gwyddorau Bywyd

Dyddiedig 9 Hydref

Atodiad 1

Egwyddorion Llywodraethu sy'n diffinio'r berthynas rhwng Cyrff Hyd Braich a Llywodraeth Cymru

Cenhadaeth a diben ar y cyd

- 1. Cyflawni dros Gymru.** Mae Cyrff Hyd Braich yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiwallu dyheadau dinasyddion Cymru. O safbwynt Llywodraeth Cymru, prif rôl Corff Hyd Braich yw cyflawni cyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru a chyflawni amcanion a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio cyllid a bleidleisiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r berthynas hon yn cael ei chynnal drwy drefniant nawdd a reolir ar ran Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru. Mae gan y Cyrff Hyd Braich ffurfiau sefydliadol amrywiol, gan gynnwys elusennau a chyrff lled-farnwrol a gallant gynnwys gwahanol awdurdodaethau y tu hwnt i Gymru. Er eu bod yn parchu'r amrywiaeth hwn, mae Gweinidogion yn troi at gyrff Hyd Braich yn bennaf i ddarparu swyddogaethau a gwasanaethau pwysig i bobl Cymru ar eu rhan.
- 2. Canolbwyntio ar ganlyniadau a pherfformiad y Corff Hyd Braich.** O fewn y cyfyngiadau a bennir gan statud ac ymrwymadau Gweinidogol, bydd amcanion y Corff Hyd Braich, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu pennu o ran canlyniadau sy'n glir, yn berthnasol ac yn heriol. Er mwyn hybu arloesedd ac effeithlonrwydd, rhoddir cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r Cyrff Hyd Braich o ran sut y cyflawnir y canlyniadau hyn. Ni ddylai llythyrau cylch gwaith unigol fod yn fwy rhagnodol nag sy'n ofynnol dan gyfrifoldebau'r Corff Hyd Braich. Fodd bynnag, dylai'r fframwaith perfformiad asesu cyfraniad y Corff Hyd Braich at gyflawni canlyniadau.

Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyrff Hyd Braich

- 3. Perthnasau a ddiffinnir gan ymddiriedaeth a risg.** Dylai'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyrff Hyd Braich fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, gyda dull cymesur o ymdrin â risg. Os oes tystiolaeth o berfformiad gwael neu lywodraethu gwan, bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu 'ymarferol' mwy rhagnodol ar gyfer y berthynas. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei swyddogaethau nawdd yn perfformio'n effeithiol ac yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr egwyddorion hyn.
- 4. Cydweithredu effeithiol.** Mae Cyrff Hyd Braich yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am eu harbenigedd a'u profiad. Mae Cyrff Hyd Braich, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ac adeiladu 'Tîm Cymru', gan chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n ehangach ac yn ddyfnach wrth ddatblygu polisïau gan gefnogi ei gilydd a dathlu llwyddiant. Dylid manteisio ar gyfleoedd i arbed arian, canfod arbedion effeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd yn egniol ac ar y cyd.
- 5. Cyfathrebu effeithiol.** Mae Cyrff Hyd Braich a Llywodraeth Cymru yn ffurfio teulu estynedig ac yn ymrwmo i gynnal dull cyson, parchus a cholegol o

ymdrin â'i gilydd yn gyhoeddus ac yn breifat. Mae pob parti'n ymrwymo i geisio cyfathrebu'n effeithiol, bod mor agored â phosibl, rhannu gwybodaeth ar sail 'dim sypreis' a rheoli materion dadleuol drwy ddeialog a negodi.

Llywodraethu ac atebolrwydd

6. **Cadeirydd a bwrdd y Corff Hyd Braich.** Mae byrddau'r Corff Hyd Braich yn atebol i Weinidogion am gyflawni'r amcanion diffiniedig, sicrhau dulliau llywodraethu corfforaethol o ansawdd uchel ac am oruchwylio gweithrediaeth y Corff Hyd Braich, gan gynnwys y Prif Weithredwr.
7. **Prif rôl y bwrdd yn y gwaith o oruchwylio'r Corff Hyd Braich.** Dylai llywodraethu a'r drefn rheolaeth fewnol fod yn fater i fwrdd y Corff Hyd Braich yn bennaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y Bwrdd, yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol am sicrwydd. Dylai'r rôl noddi ganolbwyntio ar fod yn gyfrifol am gyflawni amcanion a rheoli perthnasoedd rhwng y Corff Hyd Braich a Llywodraeth Cymru. Dylid nodi rolau a disgwyliadau clir ar gyfer Gweinidogion, Cadeiryddion, Byrddau, Swyddogion Gweithredol, Swyddogion Cyfrifyddu, Timau Nawdd ac Archwilwyr yn y Ddogfen Fframwaith.
8. **Rheoli perfformiad.** Er ein bod yn disgwyl i'r norm fod yn berfformiad da, yn drefn lywodraethu effeithiol ac yn berthynas barchus, rhaid i'n dull gweithredu allu ymateb yn effeithiol i berfformiad gwael neu broblemau eraill. Lle ceir tystiolaeth o berfformiad gwael o ran amcanion, rheoli cronfeydd, effeithiolrwydd Byrddau neu agweddau eraill ar lywodraethu, mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl a'r cyfrifoldeb i gymryd mwy o ran ac i fod yn fwy rhagnodol. Bydd rheoli perfformiad yn seiliedig ar risg, gan ddibynnu ar dystiolaeth o reolaeth fewnol gadarn i gefnogi cyffyrddiad ysgafnach, neu fel arall i ddefnyddio gafael cryfach lle mae risgiau'n cael eu rheoli'n llai boddhaol.
9. **Dirprwyo.** Mae Llywodraeth Cymru a Swyddogion Cyfrifyddu'r Corff Hyd Braich yn parhau yn atebol ar y cyd am arian cyhoeddus sy'n cael ei wario drwy nawdd y Corff Hyd Braich. Fodd bynnag, ni ddylai'r drefn arferol ar gyfer rheoli nawdd fod mor gyfarwyddol ag sy'n angenrheidiol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gywir, a bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn ffordd gost-effeithiol. Bydd cyfrifoldeb ariannol yn cael ei ddirprwyo i'r graddau mwyaf posibl, yn gyson â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu.
10. **Ymateb i newid.** Mewn byd sy'n newid, a chyda blaenoriaethau Gweinidogol sy'n newid, efallai y bydd angen ail-lunio swyddogaethau a dulliau darparu gwasanaethau Cyrff Hyd Braich neu, lle bo hynny'n fwy priodol, adolygu perthnasedd parhaus eu hamcanion a'u trefniadau cyfansoddiadol. O bryd i'w gilydd, gall Llywodraeth Cymru gynnal adolygiadau sefydliadol neu thematig wedi'u teilwra i sicrhau bod ei chytundebau lefel gwasanaeth yn dal yn addas i'r diben, ac i wneud cynigion ar gyfer diwygio.

Atodiad 2

Amserlen Cynllunio ac Adrodd

Gofyniad	Cyfrifoldeb	Mis
Cyflwyno adroddiadau cynnydd misol (gweler paragraff 5.4.2)	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Ebrill – Mawrth
Cyfarfod Monitro Perfformiad Dwywaith y Flwyddyn Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr - Technoleg, Iechyd Digidol a Thrawsnewid Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru	Ebrill; Hydref
Cyfrifon Statudol	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Yn unol â'r amserlen gyfrifyddu
Adroddiad Blynyddol	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Yn unol â'r amserlen gyfrifyddu
Llunio Cynllun Corfforaethol / Gweithredol	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	5 mlynedd yn unig yn seiliedig ar y Rhaglen Lywodraethu
Trafodaeth am y Llythyr Cylch Gwaith drafft	Llywodraeth Cymru	Tachwedd
Anfon Llythyr Cylch Gwaith	Llywodraeth Cymru	Ionawr
Cyflwyno'r Cynllun Gweithredol Blynyddol a/neu Cynllun Busnes	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Chwefror
Cymeradwyo Cynllun Gweithredol Blynyddol a/neu Cynllun Busnes	Llywodraeth Cymru	Mawrth
Protocol Gwobrwyo a Thâl	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Bob 3 blynedd

Atodiad 3

Rhestr o Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Corfforaethol y Llywodraeth-gyfan

- y Ddogfen Fframwaith hon;
- Llythyr Cylch Gwaith blynyddol y Gweinidog i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru;
- “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru”;
- Memorandwm Llywodraeth Cymru “Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru”;
- Cyfarwyddyd Cyfrifon Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru;
- Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da;
- “Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth” Trysorlys EM;
- “Pwyllgor Gwaith Cyrff Cyhoeddus Anadrannol/NDPB – Adroddiadau Blynyddol a Chanllawiau Cyfrifon” Trysorlys EM;
- “Departmental Banking: A Manual for Government Departments” (cyhoeddir fel Atodiad 5 5.7 of “Managing Public Money”); http://www.hm-treasury.gov.uk/d/mpm_annex5.7.pdf Trysorlys EM
- “Regularity, Propriety and Value for Money” Trysorlys EM http://www.hm-treasury.gov.uk/d/Reg_Prop_and_VfM-November04.pdf
- “Green Book – Appraisal and Evaluation in Central Government”; Trysorlys EM http://www.hm-treasury.gov.uk/d/green_book_complete.pdf
- Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM; <http://www.hm-treasury.gov.uk/d/auditcommitteehandbook140307.pdf>
- Comisiwn Iechyd a Diogelwch/Adran yr Amgylchedd a'r Rhanbarthau “Revitalising Health and Safety”; <http://www.hse.gov.uk/strategy/>
- Cod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Cyrff Cyhoeddus;
- llythyrau “Prif Swyddog Gweithredol” sy'n bodoli'n barod;
- llythyrau “Annwyl Swyddog Cyfrifyddu” sy'n bodoli'n barod;
- llythyrau rheoli gan archwilyr allanol;
- cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;
- argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgorau Seneddol eraill neu awdurdod Seneddol arall sydd wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r Grŵp.

Hefyd, wrth gynnal busnes, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn sicrhau, ymysg pethau eraill:

- ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw Safonau'r Gymraeg a osodir ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu, os nad yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn atebol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, yn unol â thelerau ei Gynllun Iaith Gymraeg os oes ganddo un. Os nad oes gan yr Hwb bod ganddo Gynllun Iaith Gymraeg, bydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a bennir yn yr hysbysiadau cydymffurfio a osodir ar Weinidogion Cymru gan Gomisiynydd y Gymraeg o bryd i'w gilydd. Mae copi o'r fersiwn ddiweddaraf ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg;
- bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer mewn modd sy'n gydnaws â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg fel y nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru fel y'i cyhoeddir o bryd i'w gilydd;
- bod ei swyddogaethau'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheini nad ydynt;
- ei fod yn mabwysiadu ac yn cynnal cynllun, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yn dilyn y dull gweithredu ar gyfer bod yn agored sydd wedi'i nodi yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad at Wybodaeth;
- ei fod yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 a Deddf Diogelu Data 2018;
- mae ei swyddogaethau yn cefnogi'r nodau a'r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

Nodau Llesiant

Cymru lewyrchus
 Cymru gydnerth
 Cymru iachach
 Cymru sy'n fwy cyfartal
 Cymru o gymunedau cydlynus
 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Pum Egwyddor Gweithio

Tymor Hir Pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal Gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio Cydweithio ag unrhyw un arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

Ymwneud Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn

cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

- ei fod yn rhoi sylw dyledus i God Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrrff Cyhoeddus;
- bydd yn dilyn y fframwaith polisi a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt chaffael nwyddau a gwasanaethau;
- O ran bod yn agored, lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bydd disgwyl i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus. Rhaid i o leiaf un cyfarfod y flwyddyn fod yn gyfarfod agored. Lle bo hynny'n ymarferol ac yn briodol, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cyhoeddi adroddiadau cryno neu'n sicrhau bod cofnodion ei gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd.

O ran iechyd, diogelwch a lles, mae'n rhaid i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sicrhau'r canlynol:

- cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol perthnasol yng nghyswllt iechyd, diogelwch a lles fel y maent yn berthnasol i'w holl swyddogaethau, prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau;
- mynnu bod sefydliadau y mae'n eu hariannu ac unrhyw gontractwyr ac is-gontractwyr i'r cyrff hynny yn cydymffurfio yn yr un modd;
- cydymffurfio'n llawn â pholisi Llywodraeth y DU ar iechyd, diogelwch a lles.

Atodiad 4

Protocol Gwobrwyo a Thâl – i'w gadarnhau

Atodiad 5

CRYNODEB O'R GOFYNION CYMERADWYO A'R CYFYNGIADAU DIRPRWYO Y CYTUNWYD ARNYNT GAN GYNNWYS TREFNIADAU GALW I MEWN

Gofynion Cymeradwyo	
Pwnc	Terfyn Cymeradwyo
Penodi Prif Weithredwr	Cymeradwyaeth y Gweinidog
Trefniadau pensiwn ac iawndal/cynllun dileu swydd	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Cynllun Busnes	Cymeradwyaeth y Gweinidog
Cynllun Corfforaethol	Cymeradwyaeth y Gweinidog
Cynllun Gweithredol	Cymeradwyaeth y Gweinidog
Is-gwmnïau a mentrau ar y cyd	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Trosglwyddo y tu allan i derfynau penodedig	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Cynigion newydd, dadleuol neu ôl-weithredol	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Unrhyw fenthyca, benthyciadau, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Cadw derbynebaw y tu hwnt i'r terfyn a nodir yn y llythyr cylch gwaith	Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru
Terfynau Dirprwyo y Cytunwyd Arnynt*	
Pwnc	Uchafswm Dirprwyaeth
Prosiectau cyfalaf	Peidio â mynd dros wariant Cyfalaf o fwy na £25,000
Refeniw a chyflwyno bidiau	Peidio â mynd dros y gwariant ar Refeniw a chyflwyno bidiau sy'n fwy na £30,000 yr achos; terfyn cyfanredol blynyddol o £250,000
Contractau ymgynghori	Hyd at £50,000 y contract
Gadael tendrau unigol	Hyd at £25,000 y contract
Gwobrau	£100 yr achos; terfyn cyfanredol blynyddol o £1000.
Nawdd	£1,000 yr achos; terfyn cyfanredol blynyddol o £5,000.
Colledion a thaliadau arbennig	£2,000 yr achos; terfyn cyfanredol blynyddol o £5,000.
Cario drosodd	Diwedd y flwyddyn – 2% o gyfanswm y gyllideb gros flynyddol

*** DS – pennir terfynau dirprwyo ar gyfer gweithgareddau a gymeradwyir dan Fframwaith Cynllunio Busnes y Cwmni yn unig. Nid oes unrhyw ddirprwyo i'r Cwmni i ymgymryd â gweithgarwch nad yw'n cael ei ddisgrifio yn ei Fframwaith Cynllunio Busnes heb ganiatâd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.**

Trefniadau Galw i Mewn ar gyfer Cyrff Cyhoeddus - Trefniadau Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu.

1. Ar gyfer 2019/20 rydym wedi cytuno ar drefniadau pontio gyda'r Prif Weinidog i roi sicrwydd iddo ef ac i'r Ysgrifennydd Parhaol nad yw dileu'r gweithdrefnau galw i mewn gyda chyrrff hyd braich yn arwain at risg i Lywodraeth Cymru nac i'r gwaith o gyflawni Rhaglen y Llywodraeth yn effeithiol. Trefniadau dros dro yw'r rhain er mwyn darparu data llinell sylfaen i Lywodraeth Cymru y gall eu defnyddio i asesu yng nghyswllt faint o faterion y mae cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo, ac i gael gweld beth yw dull gweithredu pob corff o ran y trefniadau newydd.
2. Nod y trefniadau pontio yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth gyson ynghylch sut mae'r broses newydd yn gweithio yn ymarferol, yn lle parhau â mecanwaith sy'n golygu bod yn rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
3. Rydym wedi cytuno â'r Prif Weinidog y byddwn yn rhoi trefniadau **Cymeradwyo, Rhaghysbysu a Hysbysu** ar waith eleni mewn perthynas â phenderfyniadau a fu'n destun trefniadau galw i mewn yn y gorffennol.
4. Bydd Swyddogion Cyfrifyddu mewn Cyrff Cyhoeddus yn atebol am y penderfyniadau y mae'n ofynnol rhoi gwybod amdanynt. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor ar faterion y mae angen eu hysbysu ymlaen llaw, fel y nodir yn Nhabl B; er mai cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw gwneud y penderfyniad yn y pen draw. Os bydd y Cwmni'n penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, bydd y tîm partneriaeth (a elwir weithiau'n dîm noddi) yn argymhell i'r Gweinidog bod trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r Cadeirydd a'r Gweinidog sy'n cadw'r hawl i wrthod penderfyniad sy'n dod o fewn y categori hwn lle mae'r Cwmni wedi dewis heb reswm cyfiawn i ddiystyru cyngor Llywodraeth Cymru.
5. Yr eithriadau i hyn fydd y penderfyniadau a nodir yn Nhabl A, sef y rhai y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Tabl A Cymeradwyo

Penderfyniad	Cymeradwyo
Penodi Prif Weithredwr	Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Gweinidog
Cyfnod Cynllun Busnes y Llywodraeth	Gweinidog
Ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a ddsberthir fel sefydliadau Llywodraeth ganolog at ddibenion cyfrifyddu: <ul style="list-style-type: none"> a) Arian parod wedi'i drosglwyddo yn ystod y flwyddyn sy'n fwy na 4% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod b) Arian parod yn cael ei gario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n fwy na 2% o gyfanswm y Cymorth Grant/Arian Parod c) Sefydlu is-gwmnïau/mentrau ar y cyd newydd d) Unrhyw fenthyca, benthyciadau, gwarantau, indemniadau neu fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag arian cyhoeddus e) Cadw derbynebau y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y llythyr cyllido. <p>Unrhyw benderfyniad sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth fel un y mae angen cael caniatâd Gweinidogion Cymru ar ei gyfer e.e. o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, rhaid i gynllun corfforaethol blynyddol gael ei gymeradwyo gan Weinidog.</p>	Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru
	Gweinidog
Trefniadau diswyddo yn seiliedig ar y Thâl Cynllun Iawndal y Gwasanaeth (cyrff â Phensiwn y Gwasanaeth Sifil)	Pennaeth Cyflogau Sifil a fydd yn ceisio cyngor y Gweinidog fel y bo'n briodol.

Tabl B Trefniadau Rhaghysbysu

Dylai Prif Swyddogion Gweithredol roi gwybod i'w partneriaeth neu eu tîm noddi am unrhyw benderfyniadau arfaethedig sy'n dod o dan y categorïau canlynol pan fyddant yn codi er mwyn i Lywodraeth Cymru allu rhoi cyngor priodol. Bydd y bartneriaeth neu'r tîm noddi yn anelu, cyn belled ag y bo modd, at ymateb o fewn pythefnos. Os bydd y Corff yn penderfynu diystyru cyngor Llywodraeth Cymru, gall y bartneriaeth neu'r tîm noddi uwchgyfeirio'r mater i'r Gweinidog, sy'n cadw'r hawl i wrthod penderfyniad a wneir gan Gorff Cyhoeddus nad oes modd ei gyfiawnhau ar ôl trafod.

Dylai'r penderfyniadau hyn hefyd fod yn rhan o drafodaeth 'cyfrif stoc' mewn cyfarfodydd monitro misol/chwarterol:

Penderfyniad	Camau Rhaghysbysu	Cyngor Pellach
<p>Cynigion anarferol, dadleuol, neu a allai gael effeithiau pellgyrhaeddol na ddymunir eu cael, yn ôl Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys y canlynol, er nad yw'r rhestr yn gyflawn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arfer ansafonol • Gwleidyddol sensitif a/neu'n debygol o ddenu sylw negyddol yn y cyfryngau • Gallai arwain at 	<p>Y tîm partneriaeth, ar y cyd â'r timau polisi priodol, i baratoi cyngor i'w drafod gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a fydd yn ceisio cyngor ysgrifenedig gan y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Llywodraethu Corfforaethol, ac unrhyw Gorff arall sydd ag arbenigedd yn y maes.</p>	<p>Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a'r Gweinidog, fel y bo'n briodol</p>
<p>ganlyniadau annerbyniol i'r sefydliad a/neu i'r sector cyhoeddus ehangach</p>		
<p>Unrhyw gamau gweithredu y mae'r Bwrdd yn ystyried y byddent yn mynd yn groes i'r egwyddorion ar gyfer rheoleidd-dra, priodoldeb, arferion gweinyddu gochelgar a darbodus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, y mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cynghori yn eu herbyn.</p>	<p>Y tîm partneriaeth i baratoi cyngor ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol</p>	<p>Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol</p>
<p>Newid mewn polisi neu ymarfer sydd â goblygiadau ariannol eang</p>	<p>Y tîm partneriaeth i baratoi copi o'r cyngor i'r Pennaeth Rheoli Cyllidebau i Weinidog yr Uned Cyrff Cyhoeddus,</p>	<p>fel y bo'n briodol</p>

Taliadau a thelerau ac amodau staff	Y tîm partneriaeth i gyflwyno cynigion i'r Pennaeth Cyflogau a Thaliadau Cydnabyddiaeth, yr Uned Cyrff Cyhoeddus, o ran: <ul style="list-style-type: none"> • newidiadau sydd y tu allan i egwyddorion tâl sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru; • newidiadau i ddyluniad y sefydliad sy'n debygol o arwain at ddiswyddiadau 	fel y bo'n briodol
Unrhyw beth a allai effeithio ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol, e.e. pwysau cyllidebol posibl neu danwariant	Y tîm partneriaeth i ystyried	Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, fel sy'n briodol

Trefniadau Hysbysu Eraill

Yn ystod y cyfnod pontio, dylai'r Prif Swyddogion Gweithredol roi gwybod i'w partneriaid neu eu timau nawdd yn eu cyfarfodydd monitro penodedig am unrhyw benderfyniadau eraill y maent wedi'u gwneud neu sy'n debygol o'u gwneud yn y cyfnod nesaf a fyddai wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

Atodiad 6 – Erthyglau Cymdeithasu Drafft

DEDDF CWMNIAU 2006

CWMNI PREIFAT
CYFYNGEDIG DRWY
WARANT

ERTHYGLAU

CYMDEITHASU

HWB GWYDDORAU BYWYD CYMRU CYFYNGEDIG (Rhif y cwmni:
08719645)

(Mabwysiadwyd drwy benderfyniad arbennig a basiwyd ar 5 Rhagfyr 2013)

1. **RHAGARWEINIOL**

Ni fydd y rheoliadau a gynhwysir yn yr erthyglau cymdeithasu enghreifftiol ar gyfer cwmnïau preifat cyfyngedig drwy warant a nodir yn Atodlen 2 i Reoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008) sydd mewn grym adeg mabwysiadu'r Erthyglau hyn yn berthnasol i'r Cwmni a'r Erthyglau hyn fydd rheoliadau'r Cwmni.

2. **DIFFINIADAU A DEHONGLI**

2.1 Yn yr Erthyglau hyn, mae i'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai eu bod yn anghyson â'r cyd-destun:

“yr Erthyglau hyn”	yr Erthyglau Cymdeithasu hyn, pa un ai fel y'u mabwysiadwyd yn wreiddiol neu o bryd i'w gilydd wedi'u newid drwy benderfyniad arbennig
“Deddf 2006 ”	Deddf Cwmnïau 2006 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd)
“cadeirydd”	cadeirydd y Cwmni a benodwyd gan yr Aelod Warantwr yn unol ag Erthygl 9.5 neu wedi'i gymeradwyo gan yr Aelod Warantwr yn unol ag Erthygl 15.2
“Cysylltiedig”	yng nghyswllt cyfarwyddwr y Cwmni o ran yr ystyr a roddir yn adran 252 o Ddeddf 2006
“Cyfarwyddwyr”	y cyfarwyddwyr am y tro yn y Cwmni neu (fel y mae'r cyd-destun yn mynnu) bod unrhyw un ohonynt yn gweithredu fel bwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni

“cyfeiriad electronig”	unrhyw gyfeiriad neu rif a ddefnyddir at ddibenion anfon neu dderbyn dogfennau neu wybodaeth drwy ddulliau electronig
“ffurf electronig” a “dull electronig”	yr ystyr a roddir yn adran 1168 o Ddeddf 2006
“gweithredu”	mae yn cynnwys unrhyw ddull gweithredu
“ffurflen copi caled”	mae i'r ystyr a roddir yn adran 1168 o Ddeddf 2006
“Aelod Gwarantwr”	yn golygu aelod o'r Cwmni y rhoddir ei enw yn y gofrestr o aelodau'r Cwmni
“swyddfa”	swyddfa gofrestredig y Cwmni
“penderfyniad cyffredin”	mae i yr ystyr a roddir yn adran 282 o Ddeddf 2006
“selio”	sêl gyffredin y Cwmni (os oes un)
“ysgrifennydd”	ysgrifennydd y Cwmni neu unrhyw un arall sydd wedi'i benodi i gyflawni dyletswyddau ysgrifennydd y Cwmni, gan gynnwys ysgrifennydd ar y cyd, ysgrifennydd cynorthwyol neu ddirprwy ysgrifennydd
“penderfyniad arbennig”	mae i yr ystyr a roddir yn adran 283 o Ddeddf 2006
“y Statudau”	y Deddfau Cwmnïau fel y'u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf 2006 a phob statud, gorchymyn, rheoliad, adnodd neu is-ddeddfwriaeth arall sydd mewn grym am y tro sy'n ymwneud â chwmnïau ac sy'n effeithio ar y Cwmni
“is-gwmni”	mae i yr ystyr a roddir yn adran 1159 o Ddeddf 2006.
“y Deyrnas Unedig”	Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
“ysgrifenedig”	ffurflen copi caled neu i'r graddau y cytunwyd arni (neu y bernir y cytunwyd arni yn rhinwedd darpariaeth yn y Statudau) ffurf electronig neu gyfathrebu ar y we

2.2 Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd geiriau neu ymadroddion a gynhwysir yn yr Erthyglau hyn yn dwyn yr un ystyr ag yn y Statudau ond heb gynnwys unrhyw

addasiad statudol nad yw mewn grym pan ddaw'r Erthyglau hyn yn rhwymol i'r Cwmni.

- 2.3 Rhaid i eiriau sy'n cyfleu rhyw gwrywaidd yn unig gynnwys y rhyw benywaidd a'r niwtro (fel y bo'n briodol).
